

FFRAMWAITH LLETY A CHYMORTH I YMADAWYR GOFAL YNG NGHYMURU

sheltercymru.org.uk
Charity no. 515902



Mewn Partneriaeth â
Llywodraeth Cymru
In Partnership with
Welsh Government

CYDNABYDDIAETHAU

Mae'r fframwaith llety a chymorth i ymadawyr gofal yng Nghymru yn fodel sy'n ceisio helpu sefydliadau sy'n cefnogi pobl ifanc wrth iddyn nhw gymryd camau unigol tuag at adael gofal yng Nghymru.

Mae'n seiliedig ar y fframwaith llety a chymorth i ymadawyr gofal yn Lloegr (2015), a luniwyd gan Barnardo's a St Basil's ac a ddatblygwyd ar y cyd ag ystod eang o bartneriaid.

Gyda'i gilydd, mae'r sefydliadau hyn wedi rhannu eu gwybodaeth a'u syniadau am yr hyn sy'n gweithio'n dda wrth helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i bontio i fod yn oedolion. Cafodd y fframwaith hwn ei addasu i'w ddefnyddio yng Nghymru am y tro cyntaf yn 2016 gyda chymorth y sefydliadau canlynol. Mae wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau gan Shelter Cymru ar gais Llywodraeth Cymru.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r staff a'r bobl ifanc sydd wedi rhoi o'u hamser i rannu eu harbenigedd.



CYNNWYS

Y Fframwaith	3
Cyflwyniad	4
1) Paratoi ar gyfer Realiti Dewisiadau Tai	6
Gadael Gofal – Rhestr Wirio	7
Cydweithio – Rhestr Wirio	7
2) Cynllunio Llety a Chymorth Pobl Ifanc Gyda Nhw	8
Gadael gofal – rhestr wirio	11
3) Lleihau'r Argyfwng Tai	12
4) Cael Mynediad at Dai a Chymorth yn ôl yr Angen	14
5) Cyrchu a Rheoli'n Llwyddiannus Ddewisiadau Symud Ymlaen a Chymorth Mwy Hirdymo	18
Atodiad 1: Cydgomisiynu i Wella Canlyniadau i Bobl Ifanc	22
Atodiad 2: Hunanasesu: Pa mor Gysylltiedig yw eich Gwaith Comisiynu?	23
Atodiad 3: Dangos Costau a Manteision Dewisiadau Tai i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal	24
Atodiad 4: Cynnwys Plant a Phobl Ifanc wrth Ddefnyddio'r Fframwaith yn Lleol	25
Atodiad 5: Copi gwag o'r fframwaith	26




Y FFRAMWAITH

Cynorthwyyr	Camau ac opsiynau'r fframwaith	Gweithgarwch a dull gweithredu
Gofalwr/gweithiwr preswyl	1. Paratoi ar gyfer realiti opsiynau tai	Adnabod a chynllunio gyda phobl ifanc ar y fframwaith sydd ☐ Yn gadael gofal 16-18 a 18+ ☐ Yn gadael y ddalifa ☐ Y tu allan i awdurdod ☐ Yn UASC/NRPF
	2. Cynllunio opsiynau llety a chymorth pobl ifanc gyda nhw	Cynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau a chynnig dewis o ran tai a chymorth
	3. Lleihau argyfyngau tai	Cynllunio'n gynnar a chael cynlluniau wrth gefn ar waith i atal argyfyngau rhag gwaethygu
	4. Cael mynediad at dai a chymorth yn ôl yr angen	Comisiynu ystod o opsiynau tai a chymorth gyda mynediad i'r rhai sy'n gadael gofal
	5. Mynediad at opsiynau cymorth a symud tymor hwy a rheoli'r rhain yn llwyddiannus	Datblygu ystod o opsiynau symud ymlaen Gweithio gyda landlordiaid i leihau achosion o droi allan Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ystod o opsiynau tai
Cynghorydd personol	1. Paratoi ar gyfer realiti opsiynau tai	Paratoi ar gyfer gadael y ddalifa
	2. Cynllunio opsiynau llety a chymorth pobl ifanc gyda nhw	Pan fyddai i'n barod
	3. Lleihau argyfyngau tai	Cyfringu teuluol
	4. Cael mynediad at dai a chymorth yn ôl yr angen	Cymorth isel Rhannu tŷ gyda chymorth lle bo'r angen Landlordiaid sy'n gymheiriaid Gofalwr ar alwad
	5. Mynediad at opsiynau cymorth a symud tymor hwy a rheoli'r rhain yn llwyddiannus	Cymorth yn ôl yr angen i sefydlu a chymnal tenantiaeth
Egwyddorion sylfaenol - bod pobl ifanc:	1. Paratoi ar gyfer realiti opsiynau tai	Addysg gan gynnwys gan gymheiriaid a gofalwyr
	2. Cynllunio opsiynau llety a chymorth pobl ifanc gyda nhw	Cynadledau grwpiau teulu ar gyfer y rhai sy'n dychwelyd adref a gadael y ddalifa
	3. Lleihau argyfyngau tai	Lleoliadau tymor byr o'r ddalifa
	4. Cael mynediad at dai a chymorth yn ôl yr angen	Cymorth uchel Unedau bach 24/7 Cartrefi grŵp bach Llety â chymorth arbenigol Tai yn Gyntaf
	5. Mynediad at opsiynau cymorth a symud tymor hwy a rheoli'r rhain yn llwyddiannus	Cymysgedd o fathau o denantiaeth ar gael

Egwyddorion sylfaenol - bod pobl ifanc:

- yn cael cymaint o ddewis, gwybodaeth a rheolaeth â phosibl
- yn gallu gwneud camgymeriadau a byth yn 'syrrhio' o'r fframwaith
- yn cael cymorth i lwyddo
- yn cael cynnig cymorth hyblyg sy'n addasu i ddiwallu eu hangenion
- yn cael cynnig perthynas gefnogol a diamad
- yn gydgyfrifoideb eu rhiant corfforaethol



CYFLWYNIAD

Mae'r Fframwaith Llety a Chymorth i Ymadawyr Gofal yng Nghymru yn fodel sy'n ceisio helpu sefydliadau sy'n cefnogi pobl ifanc wrth iddyn nhw gymryd camau unigol tuag at adael gofal yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar y fframwaith llety a chymorth i ymadawyr gofal yn Lloegr (2015)¹, a luniwyd gan Barnardo's a St Basil's ac a ddatblygwyd ar y cyd ag ystod eang o bartneriaid. Y prif newidiadau polisi ers y ddogfen flaenorol yw:

- cyhoeddi fersiwn dau o Ran 6 o'r Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Llety);²
- esemptiad newydd rhag talu'r dreth gyngor;³
- cyflwyno cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal
- cyflwyno cyfradd uwch o Fudd-dal Tai o 25 oed i bobl sy'n gadael gofal;⁴
- rhannu'r fframwaith yn bedair dogfen (dogfen gryno, y brif ddogfen fframwaith, canllaw arfer da ac esboniad o'r fframwaith cyfreithiol) er mwyn hwyluso'r defnydd

Mae'r fframwaith wedi'i ysgrifennu ar gyfer:

- comisiynwyr awdurdodau lleol
- rheolwyr gadael gofal
- rheolwyr tai
- darparwyr tai a chymorth i bobl ifanc

Mae cael rhywle saff a diogel i fyw yn ganolog i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu gadael gofal mewn ffordd gadarnhaol. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod pobl ifanc yn gwerthfawrogi'n fawr cael dewis ble byddan nhw'n byw, a'u cynnwys mewn penderfyniadau a fydd yn effeithio arnyn nhw.⁵ Mae cyfraniad pobl ifanc yn y penderfyniadau hyn yn brofiad dysgu gwerthfawr wrth iddyn nhw bontio i fod yn oedolion a byw yn fwy annibynnol. Yn ogystal â lleihau eu pryder am y dyfodol a sut y byddan nhw'n ymdopi, mae hefyd yn debygol o sicrhau eu bod yn ymwneud i raddau mwy â'r broses o gynnal eu dewis tai. Hefyd, mae sylfaen dai ddiogel yn hanfodol i gynydd pobl ifanc ym meysydd eraill bywyd, fel addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, iechyd meddwl gwell, cysylltiadau a datblygu rhwydweithiau cymdeithasol. Fodd bynnag, does dim unrhyw lasbrint ar gyfer llwyddiant o safbwynt yr hyn sydd angen digwydd, ac mae profiad pob person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn wahanol, a bydd ei brofiad o adael gofal yn wahanol hefyd. Mae profiad pob person ifanc - gan

gynnwys pobl sy'n gadael gofal - o bontio i fyd oedolion yn ymwneud â chynnydd. I'r rhai sy'n gadael gofal, gall y broses hon fod yn gyfres o gamau bach neu fawr, o fewn y sector gofal ac wrth adael gofal a thu hwnt. Mae'n bosibl y bydd rhai pobl ifanc yn cael eu llety annibynnol eu hunain yn 18 oed, ond bydd angen cymorth arnyn nhw o hyd wrth iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau, dysgu o brofiad ac ymateb i'w hamgylchiadau bywyd sy'n newid. Fodd bynnag, yn ymarferol, bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc 18 oed - nid y rhai sy'n gadael gofal yn unig - yn ei chael yn anodd rheoli eu tenantiaeth eu hunain yn llwyddiannus hyd yn oed â rhywfaint o gymorth, a gall unrhyw brofiad o 'fethiant' mor gynnar yn eu taith i annibyniaeth fod yn ergyd o safbwynt ymarferol ac emosiynol. Dyna pam mae'r fframwaith wedi'i gynllunio i sicrhau bod gan bobl ifanc sy'n gadael gofal y cymorth hyblyg sydd ei angen arnyn nhw fel nad oes unrhyw berson ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn disgyn rhwng dwy stôl. Mae angen cymorth ar bobl ifanc sy'n gadael gofal gan eu rhieni corfforaethol trwy gydol y cyfnod pontio hwn, a thu hwnt.

Sut y dylid defnyddio'r fframwaith llety?

Nid yw'r fframwaith yn gyfarwyddol ond mae'n cyflwyno model ar gyfer sut mae modd rhoi cymorth i bobl ifanc wrth iddyn nhw adael gofal. Mae'r fframwaith ei hun yn syml iawn ac fe'i cynrychiolir yn y diagram ar dudalennau wyth a naw. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth gefndir, enghreifftiau, rhestrau gwirio ac awgrymiadau i'ch helpu i ddefnyddio'r fframwaith. Gellir addasu'r model hwn yn unol â'ch set unigryw eich hun o wasanaethau a phartneriaethau lleol a'r hyn sy'n gweithio'n dda - eich cynlluniau a'ch syniadau. Gallwch ddefnyddio'r model mewn ffordd hyblyg.

Er enghraifft, gallech ddefnyddio'r fframwaith i wneud y canlynol:

- Cwblhau dadansoddiad o anghenion pobl ifanc sy'n gadael gofal yn eich ardal
- Adolygu eich gwasanaethau presennol trwy archwiliad comisiynu
- Nodi cryfderau a bylchau eich gwasanaeth
- Fel templed i ail-gynllunio'r gwasanaeth

Mae'r fframwaith yn nodi pum cam sy'n gallu wynebu pobl ifanc wrth iddyn nhw adael gofal. Nid yw'r camau yn dilyn yr un drefn bob amser a gall pobl ifanc symud sawl gwaith rhwng camau gwahanol. Fodd bynnag, maen nhw wedi cael eu nodi i'ch helpu i feddwl am y meysydd amrywiol lle bydd angen cymorth ar bobl ifanc wrth iddyn nhw adael gofal.

1 Barnardo's a St Basils (2020) Care Leavers Accommodation and Support Framework. Ar gael yn: https://stbasils.org.uk/wp-content/uploads/2020/01/Finalframework2_CareLeavers_A4.pdf (Cyrchwyd 14 Ionawr 2022)

2 Llywodraeth Cymru (2018) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 6 Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Llety (Fersiwn 2) Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-llety.pdf> (Cyrcwyd 12 Ionawr 2022)

3 Llywodraeth Cymru (2021) Disgownt a gostyngiad Treth Gyngor. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/disgownt-gostyngiad-treth-gyngor/gadael-gofal> (Cyrcwyd 14 Ionawr 2022)

4 Cynnyg Cyfmod Ymadawyr Gofal yr Adran Gwaith a Phensiynau (2021). Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/departments-for-work-and-pensions-care-leaver-covenant-offer> (Cyrcwyd 26 Ionawr 2022)

5 Stein, M a Morris, M (2009) Increasing the number of care leavers in 'settled, safe accommodation'. C4EO, Llundain. Ar gael yn <https://eprints.whiterose.ac.uk/75159/1/Document.pdf> (Cyrcwyd 17 Ionawr 2022)

Dyma'r camau:

- Paratoi at wirionedd o opsiynau tai
- Cynllunio opsiynau llety a chefnogaeth pobl ifanc
- Lleihau'r argyfwng tai
- Cael at dai a chefnogaeth pan oes angen
- Cael at a rheoli'n llwyddiannus opsiynau symud ymlaen a chefnogaeth tymor hirach

Sut Gall Plant a Phobl Ifanc Gymryd Rhan mewn yn yr elfen Defnyddio'r Fframwaith yn Lleol?

Wrth i chi ddatblygu'r fframwaith yn lleol, un elfen allweddol o sicrhau gwelliant go iawn yw sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc. Bydd y broses o ddefnyddio dull cyfranogol sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaethau, fel y'i nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014⁶, yn eich helpu i ddarganfod beth yw dymuniadau pobl ifanc sy'n gadael gofal yn lleol a nodi'r pethau (bychain yn aml) sy'n gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddyn nhw. Hefyd, gallwch fanteisio ar yr holl wybodaeth sydd ar gael yng nghynlluniau llwybrau pobl ifanc. Bydd y gwaith o dynnu'r holl gynlluniau hyn ynghyd yn eich helpu i ddadansoddi cryfderau a bylchau yn eich darpariaeth gwasanaeth ar hyn o bryd. Hefyd, bydd y dull hwn yn sicrhau eich bod yn clywed barn pob person ifanc sy'n gadael gofal yn eich ardal – nid dim ond y rhai sy'n fodlon ymaelodi â grwpiau. Yn ogystal, bydd adborth gan ddarparwyr lleol a gwasanaethau cymorth yn bwysig, gan roi safbwyntiau gwahanol ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Egwyddorion allweddol sy'n sylfaen i lwyddiant

Mae'r fframwaith yn seiliedig ar rai egwyddorion sylfaenol i roi'r dechrau gorau posibl i bobl ifanc wrth iddyn nhw adael gofal. Er bod y fframwaith yn rhoi syniadau ymarferol ar gyfer darparu gwasanaethau da i bobl ifanc, mae agwedd eu rhiant corfforaethol yn allweddol i sicrhau llwyddiant. Mae'r egwyddorion hyn yn nodi'r canlynol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal:

- Eu bod yn cael cymaint o wybodaeth, dewis a rheolaeth â phosibl
- Eu bod yn derbyn cymorth i lwyddo a gallu gwneud camgymeriadau ac nad ydyn nhw byth yn 'disgyn allan' o'r fframwaith
- Eu bod yn derbyn cymorth i lwyddo
- Eu bod yn cael cynnig cymorth hyblyg sy'n cael ei addasu yn unol â'u hanghenion
- Eu bod yn cael cynnig cysylltiadau cefnogol a diamod

- Eu bod yn derbyn cymorth trwy gyfrifoldeb a rennir gan eu rhiant corfforaethol
- Rhannau gwahanol o awdurdod lleol yn cydweithio yn effeithiol

Mae'r fframwaith hefyd yn dibynnu ar rannau gwahanol o awdurdod lleol yn cydweithio yn effeithiol. Mae profiad pawb sydd eisoes yn defnyddio fframwaith llety yn dangos bod cydweithio effeithiol rhwng partneriaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn sbardun hanfodol i ddull gweithredu llwyddiannus. Dyma 'rianta corfforaethol' ar waith.



⁶ Llywodraeth Cymru (2014) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh> (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)

1) PARATOI AR GYFER REALITI DEWISIADAU TAI

Cynorthwyyr

Camau ac opsiynau'r fframwaith

Gweithgarwch a dull gweithredu

Gofalwr/gweithiwr preswyl

Cynghorydd personol

1. Paratoi ar gyfer realiti opsiynau tai

Cynlluniau hyfforddi tenantiaeth a sgiliau bywyd

Addysg gan gynnwys gan gymheiriaid a gofalwyr

Paratoi ar gyfer gadael y ddalfa

Adnabod a chynllunio gyda phobl ifanc ar y fframwaith sydd
☐ Yn gadael gofal 16-18 a 18+
☐ Yn gadael y ddalfa
☐ Y tu allan i awdurdod
☐ Yn UASC/NRPF

Mae angen gwybodaeth berthnasol a chywir ar bobl ifanc sydd mewn gofal am yr hyn fydd yn digwydd wrth iddyn nhw adael gofal, ble y byddan nhw'n byw, a manteision ac anfanteision dewisiadau gwahanol. Mae gofalwyr maeth, gweithwyr preswyl, gweithwyr cymdeithasol a chynghorwyr personol yn gwneud gwaith hanfodol wrth baratoi pobl ifanc ar gyfer realiti byw yn fwy annibynnol a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u dewisiadau tai pan fyddan nhw'n gadael gofal. Mae hyn yn golygu y bydd angen iddyn nhw sicrhau bod ganddyn nhw wybodaeth gynhwysfawr am y tai a'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n gadael gofal trwy ymgynghori â'r fframwaith hwn a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae angen ysgrifennu'r gwaith paratoi a'r camau nesaf arfaethedig yng nghynllun llwybr y person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.

Wrth edrych yn ôl, mae llawer o bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal wedi nodi bod eu disgwyliadau ynglŷn â byw yn annibynnol yn anymarferol.

"Ces fy ngadael i ymdopi â phob dim ar fy mhen fy hun"

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn credu'n gryf y dylai awdurdodau lleol roi gwybodaeth a chynghor llawer gwell i bobl ifanc, eu paratoi yn ymarferol, a datblygu cynlluniau wrth gefn rhag ofn bod pethau'n mynd o chwith. Un o egwyddorion pwysig y fframwaith hwn yw ei hyblygrwydd, sy'n caniatáu i bobl ifanc symud yn ôl i ddewisiadau llety â chymorth os ydyn nhw'n credu nad ydyn nhw'n barod am fwy o annibyniaeth.

Y rheswm am hyn yw bod pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn byw mewn amrywiaeth o drefniadau gwahanol. Mae'n bwysig sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth bwrpasol a chynghor wedi'i deilwra yn seiliedig ar eu hamgylchiadau unigol - ochr yn ochr â gwybodaeth fwy cyffredinol am ddewisiadau tai. Er enghraifft, os yw person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn mynd i gael trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' gyda'i ofalwr maeth hirdymor, neu'n debygol o fynd i brifysgol, does dim unrhyw fantais wirioneddol mewn rhoi gwybodaeth fanwl iawn iddo am lety â chymorth a thenantiaethau tra ei fod yn parhau i fod mewn gofal. Pe bai pethau'n newid, gall lefel y cynghor a'r wybodaeth newid. Gan ddibynnu ar amgylchiadau person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, gallai'r gwaith paratoi hwn ddechrau ymhell cyn ei fod yn dymuno gadael gofal, a dylai fod yn rhan o hyfforddiant sgiliau bywyd mwy cyffredinol.

Bydd y gweithiwr cymdeithasol neu'r ymgynghorydd personol yn arwain y broses o ddarparu gwybodaeth am lety fel rhan o'r cynllun llwybr. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod pobl ifanc yn cael mynediad at ystod o wasanaethau cymorth ymatebol er mwyn atal a mynd i'r afael â'r perygl o ddigartrefedd.

Cydweithio

Fel eu rhieni corfforaethol, mae ein plant yn dysgu gennym ni am y 'byd go iawn' - cael swydd, dod o hyd i rywle i fyw, rheoli arian. Ond mae'r farchnad dai wedi newid cymaint yn ystod y degawdau diwethaf fel nad yw'r hyn a oedd unwaith yn arfer cyffredin yn ddewis posibl bellach. A oes gan eich gofalwyr maeth a'ch gofalwyr preswyl a'ch cynghorwyr personol y wybodaeth ddiweddaraf am dai i bobl ifanc heddiw? Bydd rhai materion ond yn berthnasol i'ch ardal leol, ond dyma rywfaint o wybodaeth gyffredinol am y farchnad dai:

- Gall rhestrau aros am dai cymdeithasol fod yn hir iawn gan fod cymaint o alw amdany'n nhw.⁷
- Mae ansawdd, fforddiadwyedd, a'r gwasanaethau a ddarperir gan y landlord mewn eiddo rhentu preifat yn gallu amrywio'n fawr

Mae angen ystyried defnyddio adnoddau addysgol arbenigol yn ymwneud â gadael cartref mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio ac atal digartrefedd (gweler y Canllaw Arfer Da am enghreifftiau). Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cydleoli gwasanaethau digartrefedd i bobl ifanc gyda'u darpariaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal er mwyn sicrhau mynediad da at yngor arbenigol ar ddewisiadau tai i bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Os yw lleoliad yn methu

Mae'r fframwaith yn amlinellu arfer da a'r llwybr dymunol allan o ofal ar gyfer person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, ond rydym yn gwybod bod lleoliadau yn gallu methu. Mae angen cymorth priodol ar bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal er mwyn sicrhau nad yw lleoliad yn methu, yn ogystal â chymorth gan wasanaethau a sefydliadau trydydd sector mewn achosion pan fydd lleoliad yn methu. Mae gan Shelter Cymru amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael yma ac mae porth i bobl ifanc, sy'n cynnwys cyfeirlyfr gwasanaethau cymorth ledled Cymru, ar gael yma.

GADAEI GOFAL – RHESTR WIRIO

Beth bynnag fo'u sefyllfa bresennol, bydd angen paratoi pob person ifanc ar gyfer bywyd ar ôl gadael gofal. Ydych chi wedi ystyried sut i baratoi pobl ifanc ar draws yr amrywiaeth eang o leoliadau isod?

- Mewn gofal maeth awdurdod lleol
- Mewn gofal maeth asiantaeth (y tu allan i'r awdurdod o bosibl)
- Mewn gofal preswyl awdurdod lleol
- Mewn gofal preswyl asiantaeth (y tu allan i'r awdurdod o bosibl)
- Rhai sy'n cynllunio trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'
- Mewn 'trefniadau eraill' fel llety â chymorth neu brosiectau tŷ llety â chymorth

Mae amgylchiadau pob person ifanc yn wahanol – ac ni fydd yr un ddarpariaeth yn addas i bawb. Bydd trafodaethau yn amrywio ar gyfer pob person unigol sydd â phrofiad o fod mewn gofal, oherwydd byddwch yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n gadael gofal sydd â'u hamgylchiadau a'u dyheadau eu hunain. Hefyd, gallen nhw fod yn un o'r sefyllfaoedd canlynol:

- Mewn lleoliadau gofal sefydlog, hirdymor
- Mewn cyfres o leoliadau tymor byr
- Plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches
- Yn bwriadu mynd i'r brifysgol, ymuno â'r lluoedd arfog, neu dderbyn hyfforddiant neu addysg bellach y tu allan i'r ardal leol
- Yn y carchar
- Ag anabledd corfforol neu anawsterau dysgu
- Pobl ifanc yn eu harddegau sydd newydd ddechrau derbyn gofal
- Rhieni ifanc
- Yn wynebu anawsterau iechyd meddwl (e.e. yn destun gorchymyn)
- Yn yr ystyby am gyfnod gofal meddygol hirdymor

Wrth ystyried y cwestiynau hyn, gallai fod yn werth chweil i chi gwblhau archwiliad o sgiliau a gwybodaeth eich tîm wrth ddarparu gwybodaeth gyfoes a chywir i bobl ifanc am eu dewisiadau tai. Hefyd, bydd angen siarad â swyddogion adolygu annibynnol am yr ystod o ddewisiadau sydd ar gael a'r mathau o faterion y dylen nhw eu cynnwys o bosibl mewn adolygiadau o gynlluniau llwybrau.


CYDWEITHIO – RHESTR WIRIO

Bydd gwybodaeth a phrofiad rhannau gwahanol o'r awdurdod lleol yn amrywio o safbwynt pobl ifanc sy'n gadael gofal yn lleol. Mae cydweithio a dwyn yr elfennau hyn ynghyd yn helpu i reoli'r broses o reoli gofal yn well, o safbwynt llety a chymorth. Defnyddiwch y rhestr wirio hon i weld pa mor dda rydych chi'n cydweithio yn ystod cam hwn y fframwaith.

- Mae gwaith comisiynu ar gyfer cymorth gadael gofal a thai yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion a nodwyd
- Mae holl rannau perthnasol yr awdurdod lleol, asiantaethau sector cyhoeddus eraill, asiantaethau gwirfoddol, cymdeithasau tai a darparwyr gwasanaethau perthnasol lleol eraill yn cyfrannu at y dadansoddiad o anghenion. Yn ogystal â gwasanaethau gadael gofal, gallai hyn gynnwys gwasanaethau dewisiadau tai, iechyd y cyhoedd, gwasanaethau troseddau ieuencid, gwasanaethau ieuencid, y gwasanaeth prawf a darparwyr lleol
- Mae comisiynwyr gadael gofal yn deall unrhyw newidiadau i'r cynllun dyraniadau tai lleol, ac ymgynghorir â nhw ar y mater hwn
- Mae comisiynwyr gadael gofal yn deall y cyflenwad tai yn lleol, eu fforddiadwyedd a'u hygyrchedd – gan gynnwys tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat
- Mae swyddogion tai yn deall anghenion amrywiol pobl ifanc sy'n gadael gofal, unrhyw newidiadau a ragwelir i'r anghenion hynny, ac unrhyw newid i faint y boblogaeth sy'n gadael gofal
- Mae polisïau mynediad ac atgyfeirio ar gyfer llety â chymorth a chymorth lle bo'r angen yn cydnabod anghenion pobl ifanc sy'n gadael gofal
- Mae codau ymarfer a chanllawiau o dan ddeddfwriaeth tai a gwasanaethau cymdeithasol Cymru yn cefnogi'r uchod ac yn pwysleisio'r angen am gynllunio a chydweithio i atal digartrefedd⁸

⁸ Llywodraeth Cymru (2018) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 6 Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya (Fersiwn 2) Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf> (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)

2) CYNLLUNIO LLETY A CHYMORTH POBL IFANC GYDA NHW



Bydd gwaith cynllunio a pharatoi gwell yn cefnogi canlyniadau gwell i bobl ifanc, yn ogystal â rhoi sicrwydd personol iddyn nhw am eu camau nesaf tuag at fywyd fel oedolyn. Gall cynghorwyr personol a gofalwyr helpu pobl ifanc i ddeall neu hyd yn oed roi cynnig ar ddewisiadau tai gwahanol am gyfnod byr. Os oes ganddyn nhw ddealltwriaeth well o realiti byw yn fwy annibynnol, bydd pobl ifanc wedi'u grymuso i wneud dewis ar sail gwybodaeth.

Mae cynlluniau llwybr yn amlinellu pryd y bydd person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn gadael gofal yn ffurfiol, a'r camau arfaethedig nesaf. Mae Rhan Chwec o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014⁹ yn diffinio chwe chategori o bobl ifanc mewn cysylltiad â gadael gofal. Mae categorïau un i dri yn cwmpasu plant 16 a 17 oed, pobl ifanc sy'n gadael gofal o dan 18 oed, pobl ifanc sy'n gadael gofal dros 18 oed, a'r rhai sy'n ailgysylltu â gofal at ddibenion addysg neu hyfforddiant¹⁰ Mae gofyn cyfreithiol i baratoi cynllun llwybr¹¹ ar gyfer y bobl ifanc hyn ac mae'r cynllun yn ddogfen fyw sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd¹² Bob tro y mae'r awdurdod lleol yn lletya'r person sydd â phrofiad o fod mewn gofal, rhaid cynnal adolygiad o'r cynllun llwybr o fewn 28 diwrnod cyntaf y lleoliad newydd.¹³ Bydd gan weithwyr cymdeithasol a chynghorwyr personol y wybodaeth i allu cynllunio'r symudiadau hyn ymhell ymlaen llaw.

O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014¹⁴ dylai pobl ifanc gael cynllun tai personol hefyd, er nad yw hyn yn ofyniad statudol. Gallai'r cynllun tai personol gyd-fynd â'r cynllun llwybr, neu'n rhan ohono o bosibl.

Cysylltiad Lleol

Fel y nodir mewn canllawiau statudol,¹⁵ mae cynlluniau wrth gefn yn syniad da ar gyfer pobl ifanc yn gyffredinol. I rai pobl ifanc, mae angen cynllun wrth gefn manylach -

er enghraifft pobl ifanc sydd mewn lleoliad gofal maeth neu ofal preswyl mewn ardal arall, pobl ifanc sy'n dod allan o'r carchar fel person sy'n gadael gofal, neu'r rhai sy'n ceisio lloches ac yn aros am y penderfyniad. Gall rhai pobl ifanc sydd wedi eu lleoli y tu allan i ardal yr awdurdod lleol ddewis aros lle roedden nhw'n byw wrth dderbyn gofal a pheidio â dychwelyd i'w hawdurdod 'cartref'. Y naill ffordd neu'r llall, mae'r Cod Canllawiau yn datgan yn glir bod pobl sy'n gadael gofal yn gallu dychwelyd i'w hardal leol i fyw, os ydyn nhw'n dewis, neu aros yn yr ardal lle maen nhw wedi cael llety. Yn y naill achos neu'r llall, dylid derbyn bod ganddyn nhw gysylltiad lleol â'r ardal lle maen nhw'n dymuno aros, hyd yn oed os ydyn nhw wedi cael eu lleoli am gryn amser yn rhywle arall. Wrth asesu a oes gan aelwyd ymgeisydd gysylltiad lleol â'r ardal, dylai awdurdod hefyd ystyried a oes gan unrhyw berson y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fyw gyda'r ymgeisydd gysylltiad o'r fath.¹⁶

Mae'n bwysig iawn i'r grwpiau hyn bod gwaith cynllunio manwl yn cael ei wneud ar gyfer eu hanghenion llety, a bod ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o'r gofynion o dan y ddeddfwriaeth.

Mae rhai awdurdodau lleol yn nodi bod y broses o gynnal cyfarfodydd 'panel' rheolaidd rhwng adrannau tai a gwasanaethau plant yn fodd effeithiol o greu cytundeb a rennir am y cynllun llety ar gyfer rhai neu bob un o'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal sy'n paratoi i adael gofal. Byddai modd llunio'r cynllun tai personol yn y cyfarfod hwn, os oes angen cynllun o'r fath, a byddai'n gyfarfod cynllunio ychwanegol i'r cyfarfodydd i gynllunio llwybrau unigol. Hefyd, gellir defnyddio cyfarfodydd panel i ystyried y dewisiadau llety amrywiol sydd ar gael, er mwyn osgoi sefyllfa lle mae tenantiaeth rhywun sy'n gadael gofal yn methu oherwydd nad yw'n barod amdani eto - waeth a oes angen cynllun tai personol ai peidio. Gall pobl ifanc gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth, gan gynnwys cyfarfodydd panel, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

9 Llywodraeth Cymru (2018) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) (Fersiwn 2) Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf> (Cyrcwyd 12/1/2022)

10 Ibid

11 Ibid

12 Ibid

13 Ibid.

14 Llywodraeth Cymru (2014) Deddf Tai. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/contents/welsh> (Cyrcwyd 12 Ionawr 2022)

15 Llywodraeth Cymru (2018) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) (Fersiwn 2) Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf> (Cyrcwyd 12/1/2022)

16 Llywodraeth Cymru (2016) Dyrannu Llety a Digartrefedd: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf> (Cyrcwyd 12 Ionawr 2022)



Trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod'

Mae'r hawl i drefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' ar gyfer pobl ifanc mewn gofal maeth yn rhoi mwy o amser i bobl ifanc ystyried ble maen nhw eisiau byw ar ôl gadael gofal. Mae'r canllawiau yn nodi sut i gynllunio ar gyfer trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' cyn bod rhywun sy'n gadael gofal yn troi'n 18 oed¹⁷ Gall trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' greu mwy o sefydlogrwydd i bobl ifanc sy'n gadael gofal, yn enwedig y rhai nad ydyn nhw'n teimlo'n barod i 'symud allan' eto neu sydd â pherthynas dda iawn gyda'u gofalwr. Dylai'r gofalwr, sy'n debygol o adnabod y person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn well na neb, ei helpu i gynllunio ar gyfer ei gam nesaf. Fodd bynnag, gall trefniant Pan Fydda i'n Barod arwain at newid y berthynas â chyn-ofalwr maeth, felly mae'n bwysig bod â chynllun wrth gefn rhag ofn nad yw'r trefniant yn llwyddo. Waeth beth fo'r cynlluniau, mae angen nodi'r manylion yn y cynllun llwybr. Am ragor o wybodaeth a chanllawiau ar drefniant Pan Fydda i'n Barod, gweler Pan Fydda i'n Barod - Canllaw Arfer Da Llywodraeth Cymru yma.

Gall rhai pobl ifanc sy'n gadael gofal benderfynu dychwelyd at eu rhieni geni. Gall pobl ifanc fod â disgwyliadau afrealistig ynglŷn ag ystyr dychwelyd 'adref', ac yn aml, buan iawn mae'r berthynas yn simsanu. Os yw person ifanc yn bwriadu dychwelyd adref, mae angen gwaith cynllunio manwl cyn symud a chymorth parhaus er mwyn helpu'r person sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'i rieni neu ei deulu estynedig i addasu. Gall hyn fod yn berthnasol iawn i bobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n dychwelyd adref ar ôl bod yn y carchar. Hefyd, mae'n bwysig bod â chynlluniau wrth gefn i'w defnyddio os yw'r trefniant yn methu. Gall Cynadledda mewn Grŵp Teuluol fod yn ffordd ddefnyddiol o helpu'r person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a'i deulu i wneud y dewisiadau gorau ac ymgartrefu. Mae Cynadledda mewn Grŵp Teuluol yn broses sy'n cael ei harwain gan aelodau o'r teulu i gynllunio a gwneud penderfyniadau ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan sicrhau eu cyfranogiad. Mae'n broses wirfoddol, a gall pobl ifanc ac aelodau o'r teulu weithio gyda hwylusydd annibynnol i ystyried y dewisiadau nad oedden nhw'n amlwg i ddechrau, gan gynnwys yr angen am gymorth parhaus.

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2016) Pan Fydda i'n Barod. Canllaw Arfer Da. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/pan-fyddda-in-barod-canllaw-arfer-da-mawrth-2016.pdf> (Cyrchwyd 17 Ionawr 2022)

Canolbwyntio ar...

Mae pobl ifanc sy'n gadael carcharmewn perygl mawr o fyw mewn llety anaddas neu fod yn ddigartref, ac yn aml maen nhw wedi'u gosod mewn llety neu leoliadau gwael cyn mynd i'r carchar. Mae'n bosibl y byddan nhw'n wynebu heriau ychwanegol wrth gael mynediad at dai a chymorth i ddiwallu eu hanghenion, efallai oherwydd ymddygiad sy'n tarfu ar eraill. Mae llawer o brosiectau llety â chymorth yn gwrthod derbyn pobl ifanc os ydyn nhw wedi cyflawni troseddau penodol fel troseddau rhyw neu danau bwriadol.

Mae'n gallu bod yn anodd cynllunio ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael dedfryd o garchar am gyfnod byr, ac yn aml dydy pobl ifanc ddim yn gwybod ble maen nhw'n mynd i fyw tan y funud olaf cyn iddyn nhw adael carchar. Fodd bynnag, mae canllawiau penodol wedi'u hamlinellu ar gyfer pobl ifanc Categori Dau (sy'n cael eu diffinio'n fras fel pobl ifanc sy'n gadael gofal o dan 18 oed) er mwyn sicrhau bod llety wedi'i gynllunio ar eu cyfer ar adeg eu rhyddhau. Os ydyn nhw wedi cael dedfryd o garchar am gyfnod byr, dylid ystyried cadw eu llety hyd nes y byddan nhw'n cael eu rhyddhau. Dylid darllen y llwybr cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc (a'r llwybr ar wahân i oedolion) yn yr ystad ddiogeledde ochr yn ochr â'r llwybrau a ddatblygwyd i sicrhau bod gan droseddwr mynediad at ofal cymdeithasol yn unol â'u hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014²⁰ a Deddf Tai (Cymru) 2014.²¹ Mae'r llwybrau hyn yn darparu canllawiau ar sut i sicrhau dull integredig o baratoi ar gyfer anghenion llety plant a phobl ifanc pan fyddan nhw'n gadael yr ystad ddiogeledde.

Mae'r llwybr yn dyrannu'r cyfrifoldeb am dasgau i wasanaethau penodol, ac yn cynghori cydweithio rhwng asiantaethau ac unigolion ar adegau allweddol yn y llwybr. Ymysg yr asiantaethau y mae angen eu cynnwys y mae'r tîm troseddau ieuencid neu'r gwasanaeth prawf, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, yr ystad ddiogeledde, yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol, a landlordiaid cymdeithasol.

Mae'r llwybr yn disgrifio prosesau cyn y ddedfryd o garchar, cymorth yn y carchar, y saith diwrnod cyn rhyddhau'r unigolyn, a'r diwrnod rhyddhau a thu hwnt, a dylid cwblhau pob un o'r prosesau er mwyn sicrhau bod llety addas ar gael i'r person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal pan gaiff ei ryddhau.

Bydd angen cwblhau adroddiad cyn dedfrydu, sy'n cynnwys asesiad o drefniadau byw'r person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, ei iechyd, ei addysg, a'i gysylltiad â gofal cymdeithasol. Yn ystod y deg diwrnod cyntaf o fod yn y carchar, dylai cyfarfod cynllunio ar y cyd rhwng yr ystad ddiogeledde a'r tîm troseddau ieuencid greu cynllun dedfryd sy'n cynnwys manylion llety'r unigolyn pan gaiff ei ryddhau. Bydd angen i gynghorwyr personol gadael gofal neu weithwyr cymdeithasol wneud y canlynol:

- Hysbysu'r person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sut mae pethau'n mynd a'i ddewisiadau
- Cadw mewn cysylltiad â'r person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal gydol ei gyfnod yn y carchar, hyd yn oed os yw'n cael ei leoli yn bell o'i gartref
- Hysbysu'r person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal am gamau'r broses

Os oes mater tai wedi'i nodi, ond nad yw wedi'i ddatrys erbyn y 66ed diwrnod cyn rhyddhau'r person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, dylai'r tîm troseddau ieuencid gyflwyno ffurflen anghenion tai i'r awdurdod lleol, a dylai proses asesu gychwyn sy'n nodi anghenion gofal a chymorth y person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – a allai gynnwys llety. Unwaith y maen nhw wedi'u nodi fel pobl sy'n gymwys am gymorth o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, dylid sicrhau bod dewisiadau ar gyfer llety addas ar gael a bod pecyn cymorth wedi'i gytuno gyda'r person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.

Dylid adolygu'r trefniadau eto saith diwrnod cyn i'r unigolyn adael y carchar. Bydd angen sicrhau bod cynllun wrth gefn ar waith rhag ofn na fydd y dewis cyntaf yn llwyddo.

Mae angen i gomisiynwyr gwasanaethau gadael gofal a gwasanaethau tai ystyried pa mor hawdd fydd hi i bobl ifanc sy'n gadael carchar gael mynediad at wasanaethau presennol, a pha wasanaethau neu gymorth ychwanegol posibl y bydd eu hangen arnyn nhw yn benodol. Gallai hyn gynnwys protocol ar y cyd rhwng tai, gwasanaethau plant a thimau troseddau ieuencid er mwyn darparu llety addas yn lleol.¹⁹ Hefyd, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i asiantaethau sy'n cynnig lleoliadau ar ôl dedfryd o garchar deithio i gyfarfod â'r person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn y carchar, neu drefnu cyfweiliadau cyn-denantaeth trwy Skype (fel sy'n digwydd yng Ngharchar Ei Fawrhydi a Sefydliad Troseddwr Ifanc y Parc).



Mae symudiadau sydd wedi'u cynllunio'n dda er budd pennaf pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae symudiadau argyfwng neu frys yn llawer llai tebygol o arwain at ganlyniadau da, ac mae'n bosibl y byddan nhw'n cael effaith negyddol ar agweddau eraill ar fywydau pobl ifanc megis addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Gall cynghorwyr personol neu ofalwyr maeth neu breswyl fynd ati mewn sawl ffordd i helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i wneud dewis ar sail gwybodaeth wrth symud allan o ofal. Dyma rai enghreifftiau.

Fflatiau hyfforddi

Mae nifer o bobl ifanc sy'n gadael gofal yn dweud eu bod eisiau gadael gofal er mwyn cael 'lle i fyw eu hunain'. Fodd bynnag, mae realiti byw yn annibynnol fel y cam cyntaf ar ôl gadael gofal yn gallu bod yn wahanol iawn i'r hyn y mae pobl ifanc yn ei ddisgwyl. Yn aml, mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n unig, yn ansicr am sut i reoli problemau yn y cartref, neu'n poeni am gyllid a biliau. Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio fflatiau hyfforddi i helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i gael blas ar y profiadymarferol o fyw ar eu pennau eu hunain, heb y perygl o golli eu tenantiaeth gyntaf.

Ymweld â gwahanol fathau o dai

Mae'n gallu bod yn anodd i bobl ifanc sy'n gadael gofal wybod ble maen nhw eisiau byw os nad oes ganddyn nhw unrhyw brofiad o wahanol fathau o dai. Mae iaith yn bwerus iawn: er enghraifft, mae'r term 'hostel' yn cael ei ddehongli mewn ffordd negyddol yn aml, gan awgrymu llochesi nos neu adeiladau mawr mewn cyflwr gwael heb fawr o gymorth. Fodd bynnag, gallai cynllun llety â chymorth a gomisiynwyd yn lleol - a elwir yn 'hostel' yn lleol o bosibl - fod yn wasanaeth bach o safon uchel mewn gwirionedd, a gallai fod yn gam cyntaf da i berson â phrofiad o fod mewn gofal. Enghraifft arall yw 'tŷ llety â chymorth', sy'n debygol o fod yn derm anghyfarwydd, ond mae'n debyg i ofal maeth mewn sawl ffordd ac yn fwy addas i bobl ifanc hŷn. Gall cyngor gan bobl ifanc eraill fod o gymorth mawr wrth ystyried manteision ac anfanteision y dewisiadau gwahanol sydd ar gael.

Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig cyfle i bobl ifanc sy'n gadael gofal ymweld â llety gwahanol, neu hyd yn oed aros yno am noson neu ddwy, i gael profiad ymarferol cyn penderfynu ble maen nhw eisiau byw nesaf. Gall y broses o alluogi pobl ifanc i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth wneud gwahaniaeth mawr i'w hymrwymiad i'r tai o'u dewis.

Gall gwahanol fathau o lety fod â strwythurau rhent a thaliadau gwasanaeth gwahanol, ac ni fydd modd fforddio rhent rhai ohonyn nhw heb hawl i fudd-daliadau. Os yw person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn dymuno mynd i mewn i'r gweithle ac ennill incwm annibynnol, dylid archwilio'r mater hwn gyda darparwyr llety posibl. Hefyd, dylid ystyried sicrhau llety i'r person ifanc nad yw'n creu rhwystrau ymarferol i gyflogaeth, ochr yn ochr â ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r unigolyn hwnnw.

GADAEI GOFAL - RHESTR WIRIO

Ydych chi'n gweithio gyda phobl ifanc yn yr holl leoliadau gwahanol hyn i gynllunio eu llety a'u cymorth? Gallai pobl ifanc fod:

- ☐ Mewn gofal preswyl
- ☐ Y tu allan i ardal eich awdurdod lleol mewn lleoliadau gofal maeth neu breswyl
- ☐ Mewn ysgolion preswyl arbennig
- ☐ Mewn carchar neu uned ddiogel
- ☐ Yn byw gyda rhieni neu deulu.
- ☐ Mewn 'trefniadau eraill'



3) LLEIHAU'R ARGYFWNG TAI

Cynorthwyr		Camau ac opsiynau'r fframwaith			Gweithgarwch a dull gweithredu
Gofalwr/gweithiwr preswyl	Cynghorydd personol	Gweithiwr tai	3. Lleihau argyfyngau tai		
			Seibiant / seibiannau byr	Gadael gofal yn raddol	Lleoliadau tymor byr o'r ddalfa
				Cyfyngu teuluol	Cynllunio'n gynnar a chael cynlluniau wrth gefn ar waith i atal argyfyngau rhag gwaethgu

Mae'r profiad o fod yn ddigartref yn ifanc yn creu stigma i'r unigolyn, ac mae'n gallu arwain at ganlyniadau gwael yn yr hirdymor oni bai bod cymorth effeithiol a dewisiadau tai ar gael.¹⁸ Mae llawer o bobl ifanc yn dweud bod eu profiad o fod yn ddigartref yn drawmatig, gan arwain atyn nhw'n rhoi'r gorau i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a dibynnu ar fudd-daliadau. Mae bod yn ddigartref yn gallu arwain at risgiau llawer uwch o ddatblygu problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, dioddef camfanteisio rhywiol neu fathau eraill o gamfanteisio, troseddu ac, mewn rhai ardaloedd, dod i gysylltiad â gangiau. O ganlyniad, gall pobl ifanc ymddieithrio o wasanaethau gan olygu y bydd darparu cymorth priodol iddyn nhw yn fwy anodd.¹⁹

I bobl ifanc sy'n gadael gofal, gall digartrefedd fod yn brofiad sy'n fwy niweidiol fyth gan nad oes ganddyn nhw aelodau o'r teulu i'w helpu yn aml, ac er mai'r awdurdod lleol yw eu 'rhiant corfforaethol', mae llawer o bobl ifanc yn dweud eu bod yn teimlo eu bod ar eu pennau eu hunain.

"Bydd os ydych chi'n cael help yn dibynnu ar [eich] cysylltiadau personol." Barn person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal am y system.

Mewn rhai ardaloedd, heb lety argyfwng neu lety arhosiad byr i bobl ifanc, mae pobl ifanc digartref sydd wedi gadael gofal wedi disgrifio aros mewn hostelau i bobl o bob oed gyda phobl hŷn - a allai fod yn defnyddio sylweddau neu'n ymwneud â'r byd troseddu - neu'n byw am gyfnodau hir mewn llety gwely a brecwast neu westy amhriodol. Rhaid osgoi llety gwely a brecwast a'i ddefnyddio fel dewis olaf yn unig; mae'n bosibl na fydd gan lety o'r fath gyfleusterau sylfaenol (e.e. ar gyfer coginio) neu ei fod yn dibynnu ar rannu cyfleusterau o'r fath gyda dieithriaid. Mae'n gallu bod yn gostus i'w feddiannu hefyd.²⁰ Mae canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud 'ymdrechion cynhwysfawr' i osgoi defnyddio llety gwely a brecwast ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed.²¹

Pan fydd person ifanc sy'n gadael gofal yn wynebu methiant posibl yn ei sefyllfa fyw, mae'n bwysig bod

camau'n cael eu cymryd yn gyflym i'w atal rhag mynd yn ddigartref. Gall digartrefedd ddigwydd mewn unrhyw fath o lety. Er enghraifft, gallai'r person ifanc fod wedi dychwelyd adref at ei deulu, bod mewn trefniant Pan Fydd i'n Barod, bod yn byw gyda phartner, bod mewn lleoliad tŷ llety â chymorth, neu'n rhan o gynllun llety â chymorth. Mae'n bosibl y bydd gan rai pobl ifanc eu tenantiaeth eu hunain, ond eu bod yn cronni ôl-ddyledion rhent neu'n cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn lleol, sy'n peryglu eu tenantiaeth.

Mae gwaith y cynghorydd personol ac - os yw'r person â phrofiad o fod mewn gofal yn byw mewn llety â chymorth - ei weithiwr allweddol, yn hanfodol yn hyn o beth, oherwydd fe ddylen nhw wybod sut mae pob person â phrofiad o fod mewn gofal yn ymdopi, ac fe ddylen nhw fod yn ymweld â'u llety yn rheolaidd. Dylai gofalwyr maeth, ymwelwyr annibynnol neu oedolion eraill y gellir ymddiried ynddyn nhw ym mywyd y person â phrofiad o fod mewn gofal gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am nodi unrhyw bryderon ynglŷn ag i ba raddau y mae person â phrofiad o fod mewn gofal yn ymdopi, neu os yw ei gartref mewn perygl.

Gellir defnyddio ystod o adnoddau atal digartrefedd i geisio atal y person â phrofiad o fod mewn gofal rhag colli ei gartref.²² Mae'n bosibl y bydd angen iddo symud o'i lety maes o law, ond gellir defnyddio dulliau atal i arafu argyfwng, lleddfu risgiau a sicrhau bod modd symud mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio ac mewn ffordd gynaliadwy. Un o brif sbardunau digartrefedd i bobl ifanc o bob math, gan gynnwys y rhai mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, yw perthynas yn methu. Mae colli cysylltiad â gofalwyr maeth hirdymor neu adael gofal preswyl yn ddisymwth o ganlyniad i ddigwyddiad yn niweidiol i bobl ifanc ac mae'n bosibl y byddan nhw'n ddigartref ac ar y stryd o ganlyniad. Gall gwrthdaro heb ei ddatrys ac effaith emosiynol perthynas sydd wedi methu atgyfnerthu'r teimlad o ddiffyg hunan-barch a chred fewnol nad oes neb yn poeni. I bobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n parhau i dderbyn gofal ac sy'n byw gyda gofalwyr maeth neu mewn gofal preswyl, weithiau mae perthynas sy'n methu yn gallu

18 Foundation. (2015) Ar gael yn: https://pure.hw.ac.uk/ws/portalfiles/portal/7906947/Hard_Edges_Mapping_SMD_FINAL_VERSION_Web.pdf (Cyrchwyd: 17 Ionawr 2022)

19 Ibid.

20 Shelter Cymru (2022) Temporary Accommodation Survival Guide. Ar gael yn: <https://sheltercymru.org.uk/temporary-accommodation-survival-guide/> (Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2022)

21 Llywodraeth Cymru (2016) Dyrannu Llety a Digartrefedd: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf> (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)

22 Llywodraeth Cymru (2016) Dyrannu Llety a Digartrefedd: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf> (Cyrchwyd 21 Chwefror 2022)

arwain at newid lleoliad heb ei gynllunio i 'drefniadau eraill'. Mae'n bosibl y bydd modd osgoi newid lleoliad heb ei gynllunio trwy ddarparu gweithgareddau atal priodol - fel cynnig gwasanaeth cyfryngu.

Mae'n bosibl y bydd person 18 oed neu'n hŷn sy'n gadael gofal yn dilyn tor-perthynas gyda phartner neu ffrind y mae'n byw gydag ef, ei rieni neu ei deulu ehangach, neu gyda'i gyn-ofalwr maeth neu'r sawl sy'n cynnal ei lety â chymorth. Gall pobl ifanc sydd wedi dychwelyd at eu teulu neu eu gofawyr ar ôl dod allan o garchar fod mewn perygl penodol. Mae enghreifftiau o adnoddau atal digartrefedd yn cynnwys:

Cyfryngu

Er bod gwasanaethau cyfryngu yn tueddu i gael eu darparu ar gyfer pobl ifanc sy'n byw gyda'u rhieni, gellir eu defnyddio hefyd ar gyfer pobl ifanc os yw eu lleoliad mewn perygl o fethu. Weithiau mae person gwahanol, o asiantaeth wahanol o bosibl, yn cael ei ystyried yn fwy annibynnol gan nad yw'n gysylltiedig â phroses y lleoliad.

Gall prosesau cyfryngu gael eu strwythuro a'u cyflwyno mewn sesiynau wedi'u cynllunio, neu gallent fod yn fwy uniongyrchol ac anffurfiol. Fel arfer, mae cyfryngwyr yn helpu pobl ifanc a'u gofawyr neu eu teuluoedd i ddeall natur y tensiynau sylfaenol a'r hyn maen nhw am ei gyflawni, gan eu cynorthwyo i ddod o hyd i ddulliau o ddatrys materion. Mae sawl ffordd o fesur ystyr canlyniad llwyddiannus sy'n deillio o waith cyfryngu, ac un ffordd bosibl yw sicrhau bod yr unigolyn yn symud o'i sefyllfa dai bresennol, ond mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio.

Ar adeg o argyfwng gwirioneddol, does dim llawer o amser i drefnu gwasanaeth cyfryngu mwy ffurfiol, ac nid yw'n debygol o fod yn gynnig hawdd i bobl ifanc a'u gofawyr dderbyn chwaith. Ond does dim angen cyfnod arweiniol hir ar gyfer cyfryngu uniongyrchol, gan fod rhywun sydd â sgiliau cyfryngu a negodi yn gallu ymweld o fewn ychydig oriau ac ymdrin â materion yn y fan a'r lle. Efallai na fydd cyfryngu yn briodol bob amser os oes sensitifrwydd neu densiynau penodol mewn perthynas a allai ymddieithrio'r person â phrofiad o fod mewn gofal ymhellach os yw'n teimlo ei fod yn cael ei orfodi i gymryd rhan mewn proses gyfryngu.

Cynadledda mewn Grŵp Teuluol

Mae cynadledda mewn grŵp teuluol yn ddewis arall y gallai awdurdodau lleol ei ystyried. Fe'i defnyddir gyda phobl ifanc sy'n gadael gofal a'u gofawyr mewn rhai ardaloedd, ac mae'n gallu sicrhau canlyniad llwyddiannus. Mantais defnyddio dull cynadledda mewn grŵp teuluol yw'r ffaith ei fod yn gallu manteisio ar yr adnoddau sylweddol sydd ar gael weithiau yn y rhwydwaith teulu a ffrindiau estynedig, gan olygu bod modd rhoi cynllun mwy hirdymor a chynhwysfawr ar waith fel mesur ataliol.

Seibiant/Gwyliau Byr

Os yw perthynas dan straen, weithiau mae angen seibiant ar bobl ifanc i feddwl am yr hyn sy'n digwydd a gwneud cynllun ar gyfer y dyfodol. Mae'r broses o gynnig gwasanaeth seibiant neu wyliau byr yn gallu helpu person ifanc sy'n gadael gofal i gymryd ei amser wrth wneud penderfyniadau a meddwl am ei gam nesaf. Gallai gwasanaeth seibiant ddarparu lle diogel i rywun sy'n gadael gofal am ychydig ddyddiau neu wythnosau, neu fe allai gynnig amrywiaeth o gymorth hyfforddiant neu therapiwtig. Gellid defnyddio seibiannau byr ar y cyd â gwasanaeth cyfryngu i symud y person sydd â phrofiad o fod mewn gofal allan o sefyllfa'r argyfwng a chydweithio i geisio datrys y materion sylfaenol. Ni ddylid ystyried defnyddio llety gwely a brecwast ar gyfer llety gwyliau byr neu seibiant o dan unrhyw amgylchiadau.

Symudiadau tymor byr o'r carchar

Mae pobl ifanc sy'n gadael carchar mewn perygl mawr o fod yn ddigartref. Dylid darllen y llwybr cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc (a'r llwybr ar wahân i oedolion) yn yr ystad ddiogeledol ochr yn ochr a'r llwybrau a ddatblygwyd i sicrhau bod gan droseddwr mynediad at ofal cymdeithasol yn unol â'u hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014²³ a Deddf Tai (Cymru) 2014,²⁴ er mwyn sicrhau dull integredig o baratoi ar gyfer anghenion llety plant a phobl ifanc pan fyddan nhw'n gadael yr ystad ddiogeledol. Mae'r llwybrau yn ymwneud â dyrannu cyfrifoldeb a chydweithio uniongyrchol rhwng asiantaethau ac unigolion allweddol, gan gynnwys y tîm troseddau ieuencid neu'r gwasanaeth prawf, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, yr ystad ddiogeledol, yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol, a landlordiaid cymdeithasol.²⁵

Mae rhai awdurdodau lleol yn darparu llety tymor byr sydd ar gael i bobl ifanc yn syth ar ôl gadael carchar fel rhan o'u cynllun adsefydlu. Gallai fod yn ystafell wedi'i chlustnodi mewn prosiect tai â chymorth neu dŷ llety â chymorth arbenigol. Mae pobl ifanc yn gallu defnyddio'r gwasanaeth am ychydig wythnosau wrth ystyried y dewisiadau mwy hirdymor sydd ar gael yn lleol neu wrth adsefydlu'r berthynas a'u teulu cyn symud adref eto, neu nes bod y lleoliad o'u dewis ar gael. Gweler y canllaw ymarfer da am enghreifftiau.

Newidiadau i Angen Blaenoriaethol

Mae newidiadau diweddar i'r ddeddfwriaeth yn cynnwys:

- Ychwanegu 'person sy'n ddigartref ac ar y stryd' fel unfed categori ar ddeg o Angen Blaenoriaethol o dan Adran 71(2)) o dan ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014
- Cynnwys argyfyngau iechyd y cyhoedd yn y rhestr o ddigwyddiadau argyfwng (fel llifogydd) o dan Erthygl 6A

23 Llywodraeth Cymru (2014) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh> (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)

24 Llywodraeth Cymru (2014) Deddf Tai. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/contents/welsh> (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)

25 Llywodraeth Cymru (2018) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) (Fersiwn 2). tt. 96-97. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/96-97/cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf> (Cyrchwyd 12/1/2022)

4) CAEL MYNEDIAD AT DAI A CHYMORTH YN ÔL YR ANGEN

Cynorthwyyr		Camau ac opsiynau'r fframwaith				Gweithgarwch a dull gweithredu	
Gofalwr/gweithiwr presw	Cynghorydd personol	Gweithiwr tai	4. Cael mynediad at dai a chymorth yn ôl yr angen				
			Arhosiad byr/argyfwng Aros dros nos Seibiannau byr Seibiant / seibiannau byr Llety â chymorth byrdymor Gwely asesu mewn argyfwng	Cymorth uchel Unedau bach 24/7 Cartrefi grŵp bach Llety â chymorth arbenigol Tai yn Gyntaf	Cymorth canolig Cymorth lle bo'r angen Llety penodol ar brydles gan awdurdodau lleol	Cymorth isel Rhannu tŷ gyda chymorth lle bo'r angen Landlordiaid sy'n gymheiriaid Gofalwr ar alwad	Comisiynu ystod o opsiynau tai a chymorth gyda mynediad i'r rhai sy'n gadael gofal

Bydd angen mynediad at wahanol fathau o lety a chymorth ar adegau gwahanol ar bobl ifanc sy'n gadael gofal. Gall hyn ddibynnu ar ffactorau amrywiol fel oedran pobl ifanc yn gadael gofal, eu hiechyd neu gryfder emosiynol, eu sgiliau a phrofiad bywyd, eu hiechyd meddwl a chorfforol, anabledd, unrhyw brofiad o ddefnyddio sylweddau neu droseddau, ac ystod o ffactorau eraill.

Er bod y fframwaith hwn yn cael ei gyflwyno fel model strwythuredig, does dim unrhyw berthynas linellol rhwng y mathau o lety a chymorth y bydd eu hangen ar y rhai sy'n gadael gofal. Dim ond un math o lety a chymorth y bydd ei angen ar rai pobl sy'n gadael gofal, ond bydd eraill yn symud sawl gwaith cyn dechrau byw yn annibynnol. Mae'n bosibl y byddant yn symud rhwng gwahanol fathau o ddarpariaeth mewn trefn ddilynol neu fel arall, gan ddibynnu ar sut mae eu hanghenion yn newid. Er enghraifft, os oes angen iechyd meddwl na chafodd ei nodi o'r blaen yn dod i'r amlwg, gall person â phrofiad o fod mewn gofal symud yn gyflym o leoliad cymorth isel i leoliad cymorth uchel.

Er ei bod yn ddefnyddiol bod â chanllaw ar gyfer pa mor hir y gallai person â phrofiad o fod mewn gofal aros mewn llety â chymorth (e.e. tŷ llety â chymorth, foyer, neu dŷ a rennir â chymorth cam-i-lawr a hyblyg), mae angen cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd mewn contractau er mwyn galluogi comisiynwyr a darparwyr i ymestyn arhosiad person â phrofiad o fod mewn gofal os nad yw'n barod i symud ymlaen a bod perygl y bydd yn 'methu' os yw'n gwneud hynny. Yn sgil cyflwyno Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, o 1 Rhagfyr 2022²⁶ ymlaen, mae yna fframwaith tenantiaeth newydd ar gyfer llety â chymorth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y ddogfen Ymarfer Cyfreithiol.

Bydd y cynghorydd personol, ac unrhyw un sy'n cefnogi'r person â phrofiad o fod mewn gofal o ddydd i ddydd, yn gwybod sut mae'r person â phrofiad o fod mewn gofal yn ymdopi. Trwy gydweithio, cadw mewn cysylltiad, a chynnwys y person â phrofiad o fod mewn gofal yn uniongyrchol wrth gynllunio'r cam posibl nesaf, mae canlyniad mwy cadarnhaol yn debygol. Dylid cytuno ar y penderfyniad yn ymwneud â'r llety, a'r cynllun wrth gefn, a'i nodi yng nghynllun llwybr person sy'n gadael gofal.

Mae'n ddefnyddiol os yw cynghorwyr personol yn gyfarwydd â'r amrywiaeth o ddewisiadau llety sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal yn lleol, gan gynnwys sut i atgyfeirio pobl ifanc at y gwahanol fathau o lety a chymorth. Mae'n bosibl y bydd y broses hon yn llawer symlach os oes un porth integredig ar gyfer yr holl ddewisiadau llety â chymorth. (Mae porth person ifanc ar gael yma ar wefan Shelter Cymru, gan gynnwys cyfeirlyfr gwasanaethau cymorth ledled Cymru). Dylai hyn fynd i'r afael â chynllunio strategol tai priodol. Mae Rheoliad 9(2) o Reoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015 yn diffinio llety addas fel llety:

- 'sydd, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, yn addas ar gyfer y person ifanc categori 2 yng ngoleuni ei anghenion, gan gynnwys unrhyw anghenion iechyd ac anghenion sy'n tarddu o anabledd
- y mae'r awdurdod lleol cyfrifol wedi ei fodloni mewn cysylltiad ag ef, ynghlŷn â chymeriad ac addasrwydd y landlord neu ddarparwr arall
- y mae'r awdurdod lleol cyfrifol, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, wedi cymryd i ystyriaeth mewn cysylltiad ag ef –

1. dymuniadau a theimladau
2. anghenion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y person ifanc categori 2'²⁸

Er bod angen i bobl ifanc sy'n gadael gofal gael mynediad at ddarpariaeth amrywiol, mewn gwirionedd byddant yn gyfran gymharol fach o'r bobl ifanc sydd angen cymorth tai ehangach. Felly, dylai'r dewisiadau tai a nodir yn ystod y cam hwn gael eu comisiynu ar y cyd gan y gwasanaethau tai a'r gwasanaethau plant. Gallai hyn olygu llunio manylebau ar y cyd, cytuno i gyfuno rhai cyllidebau, dyrannu gwelyau penodol mewn cynllun ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal, neu sefydlu protocol cyffredin sy'n nodi llwybrau mynediad y cytunwyd arnyn nhw. Fel rhan o'r broses hon, dylid ystyried polisïau dyrannu ac unrhyw feini prawf arfaethedig ar gyfer gwaharddiadau, gan ystyried proffil ac anghenion y rhai sy'n gadael gofal.

26 Llywodraeth Cymru (2016) Deddf Rhentu Cartrefi. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/1/22/contents/welsh> (Cyrcwyd 22 Chwefror 2022)

27 Llywodraeth Cymru. (2015) Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru). Ar gael yn: (<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1820/schedule/9/made/welsh>) (Cyrcwyd 17 Ionawr 2022)

28 Ibid, tt13-14.



Cydweithio

Mae llawer o awdurdodau lleol sy'n defnyddio llwybr llety wedi cyflwyno un porth integredig ar gyfer pob math o lety â chymorth yn yr ardal leol. Mae porth yn galluogi'r canlynol:

- dull mwy cyson o asesu anghenion a deall darpariaeth, gan olygu bod modd paru anghenion â gwasanaethau yn well
- gwybodaeth well i bobl ifanc am y dewis o opsiynau llety sydd ar gael, gan gynnwys ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal
- defnyddio adnoddau cyfyngedig yn well, gan sicrhau bod y rhai sydd â'r anghenion mwyaf yn cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw
- gwella prosesau diogelu, gan gynnwys gwybodaeth gyffredin am risg posib, dulliau o reoli risg y cytunwyd arnyn nhw, a gwybodaeth am leoliadau pawb
- gwella'r gallu i barhau gyda gwaith atal argyfwng, lle bo hynny'n berthnasol ac yn briodol
- gwella'r gallu i gynllunio symudiadau gyda'r rhai sy'n gadael gofal eu hunain
- trosolwg o symudiadau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio
- llenwi bylchau yn brydlon ac yn briodol

Yn y pen draw, mae defnyddio dull porth - yn hytrach na bod pobl ifanc yn hunangyfeirio - yn sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rhai y mae llety â chymorth yn addas ar eu cyfer.

Mae ystod eang o wahanol fathau o dai a chymorth a allai fod yn briodol i'r rhai sy'n gadael gofal. Maen nhw wedi'u trefnu yn y fframwaith ar sail darpariaeth argyfwng/arhosiad byr, arhosiad hirach a darpariaeth cam-i-lawr.

Darpariaeth Argyfwng/Arhosiad byr

Mae tŷ llety â chymorth tymor byr yn darparu llety diogel i bobl ifanc yng nghartrefi teuluol gwesteiywr lleol cymeradwy. Mae'r rhain yn debyg i aros dros nos²⁹ mewn sawl ffordd, ond nid ydyn nhw'n rhan o'r cynllun achrededig. Mae'r dewis yn debygol o fod yn rhan o gynllun tŷ llety â chymorth lleol, lle mae'r rhan fwyaf o westeion yn cael eu recriwtio ar gyfer arosiadau hirach, ond mae ambell un yn barod neu'n dymuno darparu dewisiadau arhosiad byrrach. Gan ddibynnu ar y cynllun, mae'n bosib y bydd pobl ifanc yn gallu aros am sawl noson neu sawl wythnos. Mae gan bobl ifanc eu hystafell

eu hunain a mynediad at gyfleusterau coginio a golchi, ynghyd ag amgylchedd cefnogol a chyfleoedd i feithrin eu sgiliau bywyd.

Mae'n bosibl y bydd rhai gwelyau ar gael yn benodol ar gyfer pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal mewn cynlluniau llety â chymorth mwy o ran maint. Mae'n bosibl y byddant yn ystafelloedd sengl cymharol sylfaenol, sy'n cynnig mynediad brys i bobl ifanc sydd mewn perygl uniongyrchol o fod yn ddigartref. Gall gweithwyr cymorth asesu'r person â phrofiad o fod mewn gofal tra bod gwaith yn cael ei wneud i chwilio am lety arall.

Mae canolfannau asesu yn tueddu i gael eu comisiynu fel rhan o lwybr llety ehangach i bobl ifanc, fel arfer mewn ardaloedd trefol mawr. Maen nhw'n gam cyntaf yn y llwybr, lle mae pobl ifanc yn gallu aros am gyfnod byr tra eu bod yn cael eu hasesu ac wrth benderfynu ar eu llety nesaf. Er na fydd angen defnyddio canolfan asesu fel arfer ar gyfer symudiadau nad ydyn nhw'n rhai brys i'r rhai sy'n gadael gofal, mae'n werth ystyried y dewis hwn ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu argyfwng.

Mae'n rhaid i awdurdodau tai lleol ddarparu llety dros dro ar gyfer pobl sengl a theuluoedd o dan Adran 68 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014³⁰ tra bod asesiad digartrefedd yn cael ei gynnal ac os penderfynir bod rhywun yn gymwys, yn ddigartref, yn debygol o fod ag 'angen blaenoriaethol' neu os nad oes ganddo unrhyw le arall i aros. Nodir bod pobl ifanc sy'n gadael gofal ag 'angen blaenoriaethol' yn awtomatig hyd at 21 oed, felly mae angen sicrhau bod llety dros dro ar gael iddyn nhw. Bydd y dewis hwn yn amrywio rhwng awdurdodau lleol o safbwynt y mathau o lety sydd ar gael. Gall fod yn uned hunangynhwysol mewn bloc o dai sydd wedi'i ddynodi'n llety dros dro, neu'n fath o drefniant rhannu tŷ. Mae'n bosibl y bydd yn cynnwys darpariaeth rheoli neu gymorth tai, ond nid o reidrwydd. Y naill ffordd neu'r llall, mae'n debygol o fod yn brofiad anodd a heriol i berson â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'n hanfodol darparu cymorth i berson â phrofiad o fod mewn gofal mewn unrhyw fath o lety dros dro.

Darpariaeth Arhosiad Hirach

Mae llety â chymorth yn derm cyffredinol ar gyfer llety lle mae rhyw fath o gymorth yn cael ei ddarparu ar y safle. Mae llawer o fodolau gwahanol o lety â chymorth ar gael, sy'n cael eu rhannu yma fel hyn:

- Llety â chymorth math teuluol
- Mathau eraill o lety â chymorth

29 Shelter Cymru (2020) Ar gael yn: <https://sheltercymru.org.uk/housing-advice/finding-a-place-to-live/emergency-accommodation/nightstop-schemes-for-young-people/> (Cyrchwyd 21 Rhagfyr 2022)

30 Llywodraeth Cymru (2014) Deddf Tai. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/contents/welsh> (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)

Llety â chymorth math teuluol

Mae trefniadau Pan Fyddâ yn Barod yn hawl statudol i bobl sy'n gadael gofal maeth yng Nghymru. Maen nhw'n caniatáu i bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal aros gyda'u cyn-ofalwr maeth rhwng 18 a 21 oed os ydyn nhw a'r gofalwr am i'r trefniant barhau. Fel arfer, mae'r lleoliad maeth yn cael ei droi'n drefniant tenantiaeth, a bydd y person â phrofiad o fod mewn gofal yn parhau i fyw ar yr aelwyd yn yr un modd. Bydd yn derbyn cymorth gan ei gyn-ofalwr maeth a fydd yn ei helpu i ddatblygu sgiliau bywyd.

Lleoliadau mewn cartref teuluol yn y gymuned leol yw tai llety â chymorth. Mae'r gwesteiriwr yn darparu ystafell a chyfleusterau coginio a golchi, yn ogystal â chynnig cymorth a chynghor i'r person â phrofiad o fod mewn gofal. Gellir defnyddio tŷ llety â chymorth fel lleoliadau brys, ond fel arfer maen nhw'n ddewis mwy hirdymor. Maen nhw'n gallu helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i wella eu sgiliau bywyd, fel rheoli arian, coginio, siopa, glanhau, ac ati, a darparu lleoliad teuluol iddyn nhw. Mae rhai tai llety â chymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal â llawer o anghenion cymorth, fel rhieni ifanc, y rhai sy'n dod allan o'r carchar, neu'r rhai sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol.

Mathau Eraill o Lety â Chymorth

Mae gan awdurdodau lleol rai cynlluniau llety â chymorth, a gomisiynir gan y Grant Cymorth Tai, ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal. Gall cynlluniau gael eu darparu gan elusen, darparwr cofrestredig (landlord cymdeithasol) neu ddarparwr preifat.

Gall cynlluniau llety â chymorth amrywio'n sylweddol o ran natur a graddfa. Gall y llety fod yn ystafelloedd gwely sydd â chyfleusterau a rennir, fflatiau un ystafell neu fflatiau hunangynhwysol. Gall cymorth fod ar gael 24/7 ar y safle, yn ystod y dydd yn unig neu ar alwad yn ystod y nos. Gall cynlluniau gynnwys tai gwasgaru hefyd ac mae'n bosibl y bydd ganddyn nhw unedau â chymorth cam-i-lawr er mwyn helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer amgylchedd â llai o gymorth dwys. Mae gweithwyr cymorth (a elwir yn 'weithwyr allweddol' weithiau) yn gweithio'n unigol gyda phobl ifanc ar eu cynllun cymorth eu hunain tuag at nodau y cytunwyd arnyn nhw, gan gynnwys addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, sgiliau bywyd, sgiliau byw'n annibynnol, gwella lles emosiynol, hyder ac iechyd corfforol.

Mae modelau cartrefi grwpiau bach yn tueddu i gael eu comisiynu ar gyfer pobl ifanc sydd ag anableddau corfforol neu anableddau dysgu a fydd angen cymorth parhaus gan y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. Gall cartrefi grŵp gael eu comisiynu ar y cyd gan y gwasanaethau plant, gofal cymdeithasol oedolion a chomisiynwyr cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Mae angen ystyried y budd-dal tai ac elfennau o fudd-daliadau eraill y gallai'r person â phrofiad o fod mewn gofal eu hawlio oherwydd ei anabledd. Mae darparwyr arbenigol yn gallu darparu trefniadau byw penodol i bobl ifanc mewn grwpiau bach. Gallai hyn fod yn ddewis i niferoedd bach iawn o bobl ifanc (dau neu dri efallai) fyw gyda'i gilydd, a arferai fyw mewn

gofal maeth neu ofal preswyl arbenigol. Mae angen amser paratoi hir wrth ystyried y dewis hwn, o safbwynt modelu ariannol, comisiynu a pharu pobl ifanc

Mae **Tai yn Gyntaf** yn fodel a ddefnyddir yn draddodiadol ar gyfer pobl sydd ag anghenion lluosog a chymhleth heb eu diwallu. Mae'n darparu tenantiaeth annibynnol, weithiau trwy gymdeithas dai neu drefniant rhentu preifat, ynghyd â chymorth cofleidol, pwrpasol, dwys iawn. Er ei fod yn tueddu i fod yn fodel sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pobl hŷn a fu'n ddigartref am gyfnod hir, mae'n ddewis i'w ystyried ar gyfer pobl ifanc sy'n debygol o'i chael yn anodd ymdopi mewn cynlluniau mawr fel foyers neu mewn tŷ llety â chymorth. Mae bod â'u drws ffyrnt eu hunain yn gallu bod yn ddewis cadarnhaol i rai pobl ifanc sydd ag anghenion uwch, cyn belled â bod modd comisiynu cymorth trwy wasanaethau cymorth penodol, arbenigol lle bo'r angen, gyda rhywfaint o gymorth 24 awr os oes angen. Mae nifer o brosiectau Tai yn Gyntaf ar gyfer leuenctid ar waith yng Nghymru erbyn hyn.

Os oes person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn byw mewn tŷ rhentu preifat neu dŷ cymdeithasol a'i fod yn hawlio budd-dal tai, bydd ei esemptiad o'r gyfradd llety a rennir ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yn dod i ben pan fydd yn troi'n 25 oed.³¹ Bydd angen pontio'r gwahaniaeth rhwng y rhent a'r budd-dal tai sy'n daladwy, neu byddai angen i'r person â phrofiad o fod mewn gofal symud i lety a rennir sy'n fwy fforddiadwy, a gallai hynny amharu ar ei fywyd.

Darpariaeth 'cymorth cam-i-lawr'

Mae darpariaeth a rennir neu ddarpariaeth hunangynhwysol â chymorth lle bo angen yn darparu rhywfaint o gymorth i bobl ifanc tra eu bod yn byw yn eu llety eu hunain neu mewn llety a rennir. Gellid darparu cymorth lle bo angen trwy gymorth sy'n gysylltiedig â thai, neu, os yw'r person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal o dan 18 oed, gellid ei ariannu gan y gwasanaethau plant, fel cymorth ychwanegol ar ben y cynghorydd personol a ddarperir gan y gwasanaethau plant. Mae cymorth lle bo angen yn cynorthwyo pobl sy'n gadael gofal i ymgartrefu yn eu llety ac yn y gymuned leol, gan gynnwys cael mynediad at wasanaethau lleol ac ymdrin â biliau a chyllidebu. Yn aml, mae rhenti yn cael eu gosod ar gyfradd sy'n galluogi'r person â phrofiad o fod mewn gofal i fforddio'r llety trwy ddefnyddio incwm a enillir yn annibynnol heb orfod dibynnu ar Fudd-dal Tai na Chredyd Cynhwysol.

Mae darpariaeth 'cymorth cam-i-lawr' yn gallu bod yn rhan o gynlluniau llety â chymorth mwy dwys, ac mae'n cynnig cam nesaf tuag at annibyniaeth i bobl ifanc ac yn cadw eu cysylltiad â'r cynllun sy'n darparu cymorth uwch. Mewn achosion o'r fath, gall y person â phrofiad o fod mewn gofal fyw mewn tŷ a rennir, fflat, neu fflat un ystafell hunangynhwysol wrth ymyl y cynllun llety â chymorth. Mae'n bosibl y bydd ganddo yr un 'gweithiwr allweddol' ac y bydd yn parhau i fod yn rhan o'r cynllun cymorth uwch. Gellir comisiynu darpariaeth 'cymorth cam-i-lawr' arall ar wahân, gan sicrhau cysylltiadau da o ddydd i ddydd gyda'r cynlluniau llety â chymorth lleol.



Bydd rhai pobl ifanc sy'n gadael gofal yn barod am y llety 'cymorth cam-i-lawr' mwy annibynnol wrth gymryd eu cam cyntaf allan o ofal, ac ni fydd angen iddyn nhw fyw mewn llety cymorth uwch yn gyntaf. Mae gwaith asesu a chynllunio llwybrau yn allweddol er mwyn gwneud penderfyniadau gyda phobl ifanc am ba mor barod ydyn nhw i gymryd cam o'r fath.

Mae cynlluniau ar alwad neu concierge yn darparu cymorth rheoli tai cyffyrddiad ysgafn yn ôl yr angen. Mae pobl ifanc yn cael eu cyfweld cyn cael eu gwahodd i wneud cais ar gyfer rhannu tŷ, ac weithiau mae'n ofynnol iddyn nhw basio cwrs cyn-denantiaeth er mwyn cael lle mewn tŷ.

Rhannu fel dewis tai ar gyfer pobl sy'n gadael gofal

Bydd rhai pobl sy'n gadael gofal eisiau neu angen byw mewn tŷ sy'n cael ei rannu gyda phobl ifanc eraill, o bosibl gyda chymorth lle bo angen cysylltiedig. Mae'n bwysig bod cynghorwyr personol yn trafod opsiwn rhannu gyda phobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n llai tebygol o fod â'u tenantiaeth gymdeithasol eu hunain, oherwydd ar eu pen-blwydd yn 25 oed bydd eu hawl i fudd-dal tai yn y sector preifat yn gostwng i gyfradd llety a rennir lwfans tai lleol. O ystyried y galwadau ar dai cymdeithasol, a'r prinder cyflenwad, y realiti yw y bydd angen i lawer o bobl rannu ar ryw bwynt nes ymlaen yn eu bywydau. Gall tai cymdeithasol a rennir fod yn opsiwn hefyd, er nad yw'n gyffredin.

Mae cynlluniau cyfoedion neu landlordiaid 'arweiniol' yn tueddu i fod ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion cymorth isel, sydd bron yn barod i reoli tenantiaeth heb gymorth. Gall darparwyr tai rentu tŷ preifat neu ddefnyddio eu stoc dai eu hunain i gynnal y cynlluniau hyn, ac isosod i bobl ifanc. Nodir un person â phrofiad o fod mewn gofal fel y tenant arweiniol, ac mae'n ymgymryd â rhywfaint o gyfrifoldeb y cytunwyd arno, a allai gynnwys cynnig cyngor mewn ffordd anffurfiol, casglu rhent gan eraill yn y tŷ a rennir, eu helpu i gyllidebu, a modelu ymddygiad da fel tenant.

5) CYRCHU A RHEOLI’N LLWYDDIANNUS DDEWISIADAU SYMUD YMLAEN A CHYMORTH MWY HIRDYMOR

Cynorthwyyr

Camau ac opsiynau'r fframwaith

Gweithgarwch a dull gweithredu

Gofalwr/gweithiwr preswyl

Cynghorydd personol

Gweithiwr tai

5. Mynediad at opsiynau cymorth a symud tymor hwy a rheoli'r rhain yn llwyddiannus

Dewisiadau rhannu a hunangynhwysol addas

Cymysgedd o fathau o denantiaeth ar gael

Gwiriadau fforddiadwyedd a pharatoi

Cymorth yn ôl yr angen i sefydlu a chynnal tenantiaeth

Datblygu ystod o opsiynau symud ymlaen Gweithio gyda landlordiaid i leihau achosion o droi allan Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ystod o opsiynau tai

Fel rhieni corfforaethol, ein huchelgais ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal yw sicrhau eu bod yn gallu byw mor annibynnol â phosibl yn y pen draw, datblygu cysylltiadau cymdeithasol cadarnhaol a byw bywydau llwyddiannus, hapus ac iach fel oedolion, gan fagu'r cryfder i ymdopi â'r amseroedd da a drwg anochel. Mae cam olaf y fframwaith yn nodi'r cymorth sydd ei angen i helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i symud tuag at fyw yn fwy annibynnol. Bydd y newid hwn yn digwydd yn gynharach i rai pobl ifanc, ond mae'n bosibl y bydd angen cymorth penodol ar eraill gan gynghorydd personol neu weithiwr tai y tu hwnt i 21 oed neu hyd yn oed 25 oed.

Dylai dyheadau tai hirdymor person â phrofiad o fod mewn gofal gael eu trafod a'u cofnodi yn ei gynllun llwybr. Bydd angen diweddarau'r cynllun hwn wrth i amgylchiadau a dymuniadau newid, a dylai barhau i fod yn realistig o ystyried y sefyllfa dai leol. Bydd angen i gynghorwyr personol dderbyn cyngor gan swyddogion tai am y dewisiadau tai hirdymor sydd ar gael yn lleol.

Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar argaeledd tai i bobl ifanc. Mae'r cyflenwad o lety sy'n fforddiadwy i bobl ar incwm isel yn amrywio, ac mae yna wahaniaethau sylweddol yn lleol ac yn rhanbarthol yn y farchnad dai. Ond mae llety fforddiadwy ar gyfer pobl ifanc dan 25 oed yn y rhan fwyaf o ardaloedd eisoes yn brin, a rhagwelir y bydd y sefyllfa hon yn mynd yn fwy heriol yn y dyfodol, yn rhannol oherwydd diffyg darpariaeth a materion yn ymwneud â fforddiadwyedd. Nodir nad oes gan landlordiaid lawer o hyder mewn pobl ifanc fel tenantiaid, yn rhannol oherwydd pryderon cyffredinol am fforddiadwyedd, ac yn rhannol oherwydd y newidiadau mewn Credyd Cynhwysol, lle mae rhent yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r hawlydd oni bai bod esemptiad penodol yn cael ei ganiatáu oherwydd bod yr unigolyn perthnasol yn agored i niwed.³² Er bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn grŵp penodol sy'n debygol o fod yn agored i niwed a chael eu heithrio, nid yw hyn yn digwydd yn awtomatig, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud fesul achos.

Ar hyn o bryd, mae pobl ifanc sy'n gadael gofal o dan 25 oed yn esempt o gyfradd llety a rennir y Lwfans Tai Lleol, sy'n golygu eu bod yn gallu cael mynediad at fflatiau hunangynhwysol neu fathau eraill o lety meddiannaeth unigol. Yn draddodiadol, mae pobl ifanc sy'n gadael gofal wedi cael mynediad at dai cymdeithasol fel dewis hirdymor. Fodd bynnag, mae'r esemptiad hwn o'r gyfradd llety a rennir wedi dod i ben ar gyfer pob person ifanc 25 oed a throsodd, sy'n golygu bod ganddyn nhw hawl i'r gyfradd budd-dal llety a rennir is yn unig.^{33 34} Oni bai eu bod yn gallu fforddio talu cost uwch eu llety hunangynhwysol, heb ddibynnu'n gyfan gwbl ar eu cyfradd lwfans tai is, ni fydd ganddyn nhw lawer o ddewis ond symud i lety rhatach, a rennir. Ar hyn o bryd, mae hyn yn arwain at heriau gan mai ychydig iawn o dai cymdeithasol a rennir sydd ar gael yng Nghymru.³⁵

Byw mewn tai cymdeithasol

Gallai tenantiaeth mewn tai cymdeithasol fod yn unrhyw un o'r canlynol:

- Tai y mae'r awdurdod lleol yn parhau i berchen arnyn nhw a'u rheoli
- Tai sy'n rhan o 'drosgrwyddo gwirfoddol ar raddfa fawr' - lle mae stoc a oedd yn eiddo i'r cyngor wedi ei throsglwyddo i gymdeithas dai
- Tai sy'n eiddo i gymdeithas dai neu'n cael eu rheoli ganddi, y mae wedi eu hadeiladu, eu prynu neu eu prydlesu

Gellir cyfeirio at landlordiaid tai cymdeithasol fel 'darparwyr cofrestredig' ac maen nhw wedi'u rheoleiddio gan Weinidogion Cymru o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996: Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai a Gofrestrwyd yng Nghymru.³⁶ Bu sawl newid a thueddiad diweddar ym maes tai cymdeithasol:

32 Shelter Cymru (2022) Alla i Gael Cartref? Rhwystrau i gael cartref rhent preifat yng Nghymru. Ar gael yn: <https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2022/04/Can-I-get-a-home-WELSH-FINAL.pdf> (Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2022)

33 Llywodraeth y DU (2021) Housing costs and Universal Credit. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/housing-and-universal-credit/renting-from-private-landlord#if-youre-under-35-and-you-live-in-private-housing> (Cyrchwyd 17 Ionawr 2022)

35 CCC a CLILC (2016) Viable Housing Model Research. Ar gael yn: <https://chcymru.org.uk/our-work/news-media/chc-and-wlga-viable-housing-model-research> (Cyrchwyd 17 Ionawr 2022)

36 Llywodraeth Cymru (2021) Cymdeithasau tai sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru: fframwaith rheoleiddio. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cymdeithasau-tai-sydd-wedi-u-cofrestru-yng-nghymru-fframwaith-rheoleiddio> (Cyrchwyd 17 Ionawr 2022)



■ Mae cyfraddau lwfans tai lleol ar gyfer llety cymdeithasol a rhentu preifat bellach yn cael eu huwchraddio gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na thrwy gyfeirio at renti lleol, gan ddileu'r cysylltiad rhwng cymorth tai a chostau tai gwirioneddol. Yng Nghymru, mae rhenti awdurdodau lleol yn cael eu cysoni eto â rhenti cymdeithasau tai. Yn ogystal, bydd toriadau sydd ar y gweill i'r budd-dal tai yn lleihau'r taliadau i denantiaid cymdeithasol os yw eu rhent yn uwch ar hyn o bryd na faint o fudd-dal tai y bydden nhw'n ei dderbyn yn y sector rhentu preifat

■ Mae tai cymdeithasol eisoes yn brin iawn mewn llawer o ardaloedd, yn rhannol oherwydd diffyg buddsoddi hanesyddol mewn adeiladu tai cymdeithasol newydd. O safbwynt tai cymdeithasol un gwely, mae cyfuniad o ffactorau yn cyfyngu ar fynediad:

1. Prinder cyffredinol eiddo un gwely. Problem genedlaethol yw hon: mae llawer o unedau llety un gwely wedi'u lleoli mewn tai gwarchod ac maen nhw wedi'u bwriadu ar gyfer pobl hŷn, gan roi blaenoriaeth i bobl 55 oed a throsodd
2. Mae'r galw am lety o'r maint hwn yn cynyddu gan denantiaid sy'n wynebu'r gosb danfeddiannu ('treth ystafell wely'). Mae angen i awdurdodau lleol a darparwyr cofrestredig leihau'r perygl o ôl-ddyledion a digartrefedd ymysg tenantiaid presennol, a rhoi blaenoriaeth i'r aelwydydd hyn mewn cynlluniau dyrannu, sy'n lleihau mynediad ymhellach i'r rhan fwyaf o bobl ifanc

Cynlluniau dyrannu

Mae Rhan Chwech o Ddeddf Tai 1996³⁷ yn rheoleiddio'r broses o ddyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru. Rhaid i unrhyw un sy'n bodloni'r meini prawf gael ei roi ar y rhestr aros. Does dim modd eithrio neb o'r rhestr oni bai, yn ddamcaniaethol, bod llys yn gwneud gorchymyn meddiant llwyr yn eu herbyn am ymddygiad annerbyniol (gan gynnwys ôl-ddyledion rhent) os ydyn nhw eisoes yn denant diogel yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn ynghylch israddio blaenoriaeth ymgeisydd, ac felly mae'r polisïau yn gallu cynnwys amodau fel cyfnod preswyllo rhywun yn yr ardal leol. Rhaid rhoi blaenoriaeth resymol o hyd i'r rhai sydd mewn angen tai, gan gynnwys aelwydydd sy'n statudol ddigartref, oni bai bod eu blaenoriaeth wedi'i lleihau oherwydd ymddygiad blaenorol. Fel arfer, rhoddir rhyw fath o flaenoriaeth ychwanegol (bandio neu bwyntiau) i bobl ifanc sy'n gadael gofal, ond does dim unrhyw ddyletswydd statudol i roi unrhyw flaenoriaeth i bobl sy'n gadael gofal dros grwpiau eraill, oni bai eu bod yn ddigartref, ac os felly mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth resymol iddyn nhw.

37 Llywodraeth y DU (1996) Deddf Tai. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/1996/52/contents/welsh> (Cyrcwyd 17 Ionawr 2022)

Byw yn y sector rhentu preifat

Roedd newid 2011 i'r broses o gyfrifo'r lwfans tai lleol (sy'n gosod lefel y budd-dal tai sy'n daladwy mewn unrhyw ardal) o'r 50^{fed} i'r 30^{ain} canradd³⁸ wedi cyfyngu ar faint o lety rhentu preifat sy'n fforddiadwy mewn unrhyw ardal i ben isaf y farchnad. Mae'r sefyllfa o safbwynt diffyg eiddo fforddiadwy wedi gwaethgu ers rhewi'r lwfans tai lleol ym mis Ebrill 2020.³⁹

Dangoswyd annigonolrwydd y lwfans tai lleol mewn gwaith ymchwil gan Sefydliad Bevan, sydd wedi canfod bod bwlch sylweddol wedi datblygu rhwng cyfradd y lwfans tai lleol ac eiddo pris is (yn y 30ain canradd). Mae'r bwlch wedi tyfu o £2.04 yr wythnos yn 2016/17 i £6.94 yr wythnos yn 2019/20.⁴⁰ Nodwyd y canlynol gan waith ymchwil⁴¹ mwy diweddar Sefydliad Bevan yn ystod haf 2022:

- Dim ond 60 eiddo a hysbysebwyd ledled Cymru a oedd ar gael ar gyfraddau'r lwfans tai lleol
- Mae hyn yn cyfateb i ddim ond 5.9% o'r farchnad
- Nid oedd gan saith awdurdod lleol unrhyw eiddo ar gael ar gyfradd y lwfans tai lleol

Cyfradd llety a rennir

Mae'r gyfradd llety a rennir yn cyfyngu ar y swm sy'n daladwy i'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n byw yn y sector rhentu preifat i gost ystafell mewn tŷ a rennir. O fis Ebrill 2012, cafodd y gyfradd llety a rennir ei hymestyn o 25 oed hyd at 35 oed, sy'n golygu bod mwy o bobl yn cystadlu am lety mewn tai a rennir.

Ceir rhai esemptiadau i'r gyfradd llety a rennir, gan gynnwys i bobl ifanc sy'n gadael gofal hyd at 25 oed. Mae yna esemptiad hefyd i'r rhai sydd wedi byw mewn llety adsefydlu am dri mis neu fwy, ond nid yw'n berthnasol hyd nes y byddan nhw'n 25 oed. Gellid ystyried cynnwys pobl sy'n gadael gofal yn y grŵp hwn o esemptiadau os ydyn nhw wedi byw mewn llety â chymorth ar ôl gadael gofal. Dyma rai opsiynau ar gyfer darparu cymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal pan fyddan nhw'n barod i fyw yn fwy annibynnol:

- Achredu Landlordiaid – Dylai awdurdodau lleol nodi landlordiaid yn y sector preifat sy'n barod i weithio gyda chynghorydd personol i gynorthwyo pobl ifanc sy'n gadael gofal wrth iddyn nhw ymrwymo i'w tenantiaethau eu hunain. Gallai hyn gynnwys cynorthwyo gyda chyllidebu, cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd yn y cytundeb tenantiaeth, gweithio gyda'r awdurdod lleol a'r person â phrofiad o fod mewn gofal i osgoi cael ei droi allan, a lleihau gofynion blaendal rhent. Mae Rhentu Doeth Cymru yn gyfrifol am gofrestru a hyfforddi landlordiaid.
- Gweithio gydag awdurdodau tai i sicrhau bod gan bobl ifanc sy'n gadael gofal fynediad at y sector rhentu preifat – bydd gan y rhan fwyaf o awdurdodau tai lleol gynllun mynediad at y sector rhentu preifat (a elwir weithiau yn asiantaeth gosod tai cymdeithasol) sydd naill ai'n cael ei gynnal yn fewnol neu wedi'i gomisiynu gan ddarparwr. Yn hytrach na sefydlu cynllun 'gofal gadael' ar wahân, gallai awdurdod tai – yn ei rôl rhianta corfforaethol – sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn derbyn cymorth i gael llety addas, fforddiadwy a phriodol yn y sector rhentu preifat trwy'r cynllun cyffredinol

Dylai'r cynllun gynnig cymhellion amrywiol i landlordiaid megis:

- cynlluniau bond a blaendal rhent
- rhent ymlaen llaw
- rhent sy'n cael ei dalu yn uniongyrchol i'r landlord (rhaid cael cytundeb yr Adran Gwaith a Phensiynau fesul achos)
- unigolyn cyswllt penodol a llinell gymorth 24 awr
- cymorth lle bo angen
- cynnig pobl ifanc sydd â rhywfaint o hyfforddiant sgiliau bywyd neu denantiaeth
- darparu cymorth neu gyngor ar faterion tenantiaeth (e.e. cofrestru tai amlfeddiannaeth)

Tai gwasgaru/cymorth cam-i-lawr – helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i symud yn raddol i fyw'n annibynnol. Mae rhai darparwyr tai â chymorth yn cynnwys tai gwasgaru yn eu prosiectau, fel tenantiaethau a rennir fel arfer,

38 Housing Right (2021) LHA Rates Frozen at 2020/21 Levels. Ar gael yn: <https://www.housingrights.org.uk/news/LHA-rates-frozen-again> (Cyrchwyd 17 Ionawr 2022)

39 Sefydliad Bevan (2021) Wales' housing crisis: the role of LHA. Ar gael yn: <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2021/09/Wales-housing-crisis-Bevan-Foundation-Report.pdf> (Cyrchwyd 1 Chwefror 2022)

40 Sefydliad Bevan (2021) Wales' housing crisis: the role of LHA. Ar gael yn: <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2021/09/Wales-housing-crisis-Bevan-Foundation-Report.pdf> (Cyrchwyd 1 Chwefror 2022)

41 Sefydliad Bevan (2022) Wales Housing Crisis Summer 2022. Ar gael yn: <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2022/02/Wales-housing-crisis-Bevan-Foundation-Report.pdf>



sy'n caniatáu i bobl ifanc ag anghenion cymorth uwch gael blas ar reoli eu tenantiaeth eu hunain oddi mewn i ddiogelwch prosiect tai maen nhw eisoes yn gyfarwydd ag ef. Gall tenantiaethau fod ar gael am rai misoedd neu fwy hyd nes y bydd y person â phrofiad o fod mewn gofal yn barod i symud allan. O dan y trefniadau hyn, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol neu'r sefydliad darparu wedi cytuno ar brydles neu drwydded gyda landlord preifat a'i fod yn isosod i bobl ifanc wedyn. Gall fod yn ffordd dda o sefydlu trefniadau mwy hirdymor y gall awdurdod lleol eu rheoli yn fanwl.

Cymorth i ddefnyddio lwfans 'sefydlu cartref' - mae gan bobl ifanc sy'n gadael gofal hawl i gael grant untro wrth adael gofal, sy'n werth tua £2,000 fel arfer.⁴² Gan ddibynnu ar eu sefyllfa fyw pan fyddan nhw'n gadael gofal, mae'n bosibl y bydd angen rhywfaint o'r arian ar bobl ifanc ar unwaith, ond mae eraill yn fwy tebygol o'i angen pan fyddan nhw'n barod i ddodrefnu eu tai annibynnol eu hunain.⁴³

Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal

Mae Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n troi'n 18 oed, a dechreuodd y cynllun peilot yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Bwriedir cynnal y cynllun peilot am isafswm o dair blynedd, a bydd pob aelod o'r garfan yn derbyn taliad incwm sylfaenol am gyfnod o 24 mis o'r mis ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed.

Diben y cynllun peilot yw datblygu'r cymorth presennol sy'n cael ei gynnig i blant â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru a sicrhau bod pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot yn derbyn yr holl gymorth sydd ei angen arnyn nhw i roi'r cyfle gorau posibl iddyn nhw lwyddo mewn bywyd, gan sicrhau bod y broses o drosglwyddo o ofal yn well, yn haws ac yn fwy cadarnhaol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno buddsoddiad ychwanegol mewn pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal fel grŵp: er enghraifft, ychwanegiad at daliad y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant; esemptiad ychwanegol i'r Dreth Gyngor; a sefydlu Cronfa Dydd Gŵyl Dewi. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn cysylltu'r cynnig am gymorth Incwm Sylfaenol â mentrau polisi eraill Llywodraeth Cymru, fel y Warrant i Bobl â Phrofiad o fod mewn Gofal. Dyma ymrwymiad allweddol Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i bawb o dan 25 oed sy'n byw yng Nghymru i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, a'u helpu i gael gwaith neu fod yn hunangyflogedig.

Mae'r bobl ifanc sy'n dewis cymryd rhan yn y cynllun peilot yn derbyn cymorth trwy gydol y broses ac yn cael mynediad at gymorth cofleidol yn ymwneud ag addysg, gwaith a chynghor ariannol ehangach. Mae'r taliad yn ddiamod a does dim unrhyw ofynion cysylltiedig. Mae'r taliad yr un fath i bawb ac ni fydd yn cael ei newid yn ystod y cynllun peilot. Mae taliadau'n cael eu gwneud i unigolion ac nid i aelwydydd.

Amodau

Mae angen cyfrif banc ar bob derbynnydd cymwys er mwyn derbyn y taliadau incwm sylfaenol. Bydd y bobl ifanc sy'n gymwys i gymryd rhan yn y cynllun yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn rhaglen ymgysylltu gyda chynghorwyr penodedig i ddarganfod mwy am y cynllun. Does dim angen iddyn nhw gymryd unrhyw gamau yn ystod y cyfnod hwn. Bydd ymgeiswyr cymwys yn cael eu gwahodd i fynychu sesiynau lle byddant yn cael cyfle i drafod y broses ymgeisio/taliad a'r effeithiau y gallai hyn eu cael ar eu hawl i fudd-daliadau.

Pe bai person â phrofiad o fod mewn gofal yn dymuno tynnu'n ôl o'r cynllun peilot, gall wneud hynny - **fodd bynnag, at ddibenion y cynllun peilot, byddai hwn yn benderfyniad terfynol ac ni fyddai'n gallu ail-ymuno nes ymlaen.**⁴⁴

⁴² Llywodraeth y DU (2021) Leaving foster or local authority care. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/leaving-foster-or-local-authority-care> (Cyrcwyd 17 Ionawr 2022)

⁴³ Am arweiniad wrth i'r polisi esblygu, gweler y cynllun peilot incwm sylfaenol ac esemptiadau i'r dreth gyngor ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal.

⁴⁴ Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: BIPilotWales@gov.wales

ATODIAD 1: CYDGOMISIYNU I WELLA CANLYNIADAU I BOBL IFANC

Beth yw'r sbardunau ar gyfer newid tuag at fodel cydgomisiynu?

Mae pwysau diweddar a pharhaus ar awdurdodau lleol yn golygu bod angen gwneud cynigion ar y cyd neu law yn llaw i gynorthwyo pobl ifanc. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys:

- Oherwydd y gostyngiad cyffredinol yng ngwariant y sector cyhoeddus, mae angen ail-feddl yn sylfaenol am sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu i grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi arwain at fwy o bobl ifanc yn gadael gofal maes o law, a cheir adroddiadau anecdotaidd am gyfran uwch o bobl ifanc ag anghenion lluosog a chymhleth nad ydyn nhw'n cael eu diwallu
- Y ddyletswydd ar awdurdodau lleol ers 2011 i ddarparu digon o lety addas ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn eu hardal
- Lleihau costau methiant tenantiaeth, sy'n effeithio ar refeniw landlordiaid ac yn cynyddu'r baich ar wasanaethau sy'n helpu pobl ifanc pan fydd tenantiaethau'n methu

Pam ystyried dull gweithredu ar y cyd?

Rydym yn gwybod, yn sgil ymarfer a gwaith ymchwil, bod y canlynol yn helpu pobl ifanc i lwyddo:

- Cymorth ymarferol ac emosiynol i'w paratoi i fyw yn annibynnol
- Cymorth i bontio'n raddol, gan gynnig dewis, rheolaeth a hyblygrwydd ynglŷn â ble maen nhw'n byw, sut maen nhw'n cael cymorth a pha mor gyflym mae pethau'n newid
- Cymorth dilynol yn ôl yr angen

Mae gwasanaethau a gomisiynir gan rannau gwahanol o awdurdod, lle nad oes unrhyw gysylltiad strategol neu weithredol, yn fwy tebygol o arwain at y canlynol:

- Pontio 'cywasgedig', fel cymorth ar adeg o newid tyngedfennol yn 18 oed
- Ychydig iawn o ddewisiadau ar gyfer pobl ifanc
- Tenantiaeth yn methu wrth i bobl ifanc symud i'w tenantiaethau eu hunain cyn eu bod yn barod, cynllunio wrth gefn gwael a mwy o achosion o leoliadau'n methu

- Costau sy'n gysylltiedig â dyblygu a bylchau, gan fethu'n aml â mynd i'r afael â mannau dan bwysau cyffredin (e.e. argyfyngau neu sefyllfaoedd risg uchel)
- Gwerth gwael am arian trwy brynu tai a gwneud dewisiadau cymorth cost uchel ar frys pan fydd popeth arall yn methu

Mae profiad yn dangos y gall awdurdodau lleol sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella canlyniadau i bobl ifanc sy'n gadael gofal trwy fynd ati i gydgomisiynu. Mae sawl mantais glir i'r dull gweithredu hwn:

- Datblygu mwy o opsiynau yn gyffredinol, yn seiliedig ar yr ystod o anghenion a chynnydd
- Creu opsiynau i bobl ifanc er mwyn osgoi gorfod gwneud penderfyniad tyngedfennol yn 18 oed, fel bod symudiadau'n seiliedig ar barodrwydd, nid oedran
- Rhannu arbenigedd caffael gan gynnwys dulliau gweithredu ym meysydd ansawdd a safonau
- Lleihau costau wrth ymgymryd â phrosesau caffael
- Sicrhau gwerth am arian gwell

Gallai hyn fod ar gyfer pob math o ddarpariaeth llety â chymorth lle mae'r farchnad leol a'r cyd-destun yn dangos y bydd hyn yn fanteisiol - neu gallai fod ar gyfer cynlluniau llai o ran maint yn ymwneud â darpariaeth fwy arbenigol.

Dulliau cydgomisiynu

Bydd angen i bartneriaid gytuno ar strategaeth gomisiynu sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Sicrhau canlyniadau y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys addysg, hyfforddiant a chyfflogaeth. Mae opsiynau tai a chynaliadwydd yn y dyfodol yn seiliedig fwyfwy ar sicrhau bod pobl ifanc yn weithgar yn economaidd
- Cyfrannu at amcanion strategol awdurdod lleol neu gyfun
- Galluogi partneriaid i gyflawni eu dyletswyddau statudol

Mae hyn yn digwydd mewn cyd-destun cyfyngiadau adnoddau hysbys a/neu ddisgwyliedig. Mae'n hollbwysig bod y bobl gywir yn cymryd rhan yn y broses o'r dechrau, fel bod unrhyw benderfyniad i symud ymlaen wedi cael ei lywio gan bobl ifanc, teuluoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill, a'i fod yn cael ei gefnogi a'i ddeall gan y rhai sy'n gwneud y penderfyniad.

ATODIAD 2: HUNANASESU: PA MOR GYSYLLTIEDIG YW EICH GWAITH COMISIYNU?


Ar raddfa o 0–5, gan ddefnyddio'r set o ddatganiadau a awgrymir i'ch arwain, nodwch berfformiad eich awdurdod lleol yn eich barn chi o safbwynt cydgomisiynu cymorth ar gyfer pobl ifanc wrth iddyn nhw ddysgu byw'n fwy annibynnol.

- 00. Dim cynnydd o gwbl ac nid yw'n edrych yn bosibl ar hyn o bryd
- 01. Dim cynnydd a dydyn ni ddim wedi dechrau'r broses eto
- 02. Rhywfaint o gynnydd cynnar. Rydyn ni wedi cytuno mewn egwyddor ond heb gymryd unrhyw gamau ymarferol hyd yn hyn
- 03. Rydyn ni'n dechrau gweithio ar hyn nawr gyda nod clir o fynd ati i gydgomisiynu
- 04. Mae'r gwaith wedi hen ddechrau
- 05. Mae wedi'i wreiddio'n dda ac mae'n gadarnhaol

Datganiadau yn ymwneud â chydgomisiynu a allai helpu eich dyfarniad:

- Mae yna ganlyniadau corfforaethol cyffredin y cytunir arnyn nhw ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal, a defnyddir y canlyniadau hyn er mwyn comisiynu llety a chymorth
- Mae'r holl wasanaethau a rhanddeiliaid perthnasol wedi cyfrannu at ddadansoddiad manwl o anghenion, sy'n llywio'r broses gomisiynu
- Mae gwasanaethau plant a chomisiynwyr cymorth sy'n gysylltiedig â thai (ac unrhyw gomisiynwyr eraill) yn cydweithio ar fodelu gwasanaethau/llwybrau, gan lunio manylebau ar gyfer gwasanaethau a chyfranogiad yn y broses gomisiynu
- Cytunir ar gyllidebau perthnasol ledled yr awdurdod lleol (ac asiantaethau sector cyhoeddus eraill) ac maen nhw'n cael eu cyfuno neu eu rheoli'n ddi-dor ledled cyfarwyddiaethau/meysydd gwasanaeth
- Mae'r awdurdod lleol yn mynd ati'n ymwybodol i osgoi penderfyniadau 'ymyl y dibyn' ar sail oedran, e.e. pobl ifanc yn gorfod newid lleoliad wrth droi'n 18 oed
- Mae mynediad at y ddarpariaeth sydd ar gael yn cael ei reoli trwy un man / porth fel ein bod ni'n gwybod am ddarpariaeth pawb ac yn gallu rheoli risg a diwallu anghenion yn well

- Mae corff/grŵp sy'n cael ei arwain gan y gwasanaethau plant a chomisiynwyr cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu, monitro a chytuno ar newidiadau i waith comisiynu dewisiadau llety a chymorth
- Mae yna broses ar gyfer cytuno i symud ymlaen i lety mwy annibynnol (e.e. panel, asesiad, achrediad a gyflawnwyd gan y person â phrofiad o fod mewn gofal)
- Mae yna ddisgwyliadau mawr ar gyfer darparwyr llety a gwasanaethau cymorth (er enghraifft, bod â damcaniaeth newid, y gallu i fod yn hyblyg, bod yn bartner strategol i'r awdurdod lleol, agwedd gallu gweithredu'n hyderus, arloesi, a chreu gwerth ychwanegol)



ATODIAD 3: DANGOS COSTAU A MANTEISION DEWISIADAU TAI I BOBL IFANC SY’N GADAEL GOFAL

Wrth gyflwyno cais am gyllid, yn aml mae’n ddefnyddiol iawn gallu dangos goblygiadau peidio â chymryd camau i gynorthwyo pobl ifanc sy’n gadael gofal i ddatblygu llwybr tai da. Gellid gwneud hyn trwy gwblhau dadansoddiad cost a budd neu adenillion cymdeithasol o fuddsoddi ffurfiol, neu’n fwy anffurfiol trwy ddefnyddio adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol San Steffan wedi llunio Adolygiad Tystiolaeth o Gostau Digartrefedd⁴⁵ ssy’n archwilio costau digartrefedd ymysg oedolion i lywodraeth ganolog. Gellir defnyddio hyn i ddarparu tystiolaeth ar gyfer rhai o gostau ehangach digartrefedd i’r system les, y system cyfiawnder troseddol a darparwyr iechyd, ymysg eraill. Mae canllaw Homeless Link, What’s It Worth?⁴⁶ yn esbonio sut i gwblhau dadansoddiad syml o arbedion ariannol ar gyfer gwasanaethau, gan gynnwys darparu dolenni i gostau unedol a ffynonellau cymorth eraill.



⁴⁵ Yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol (2012) Adolygiad Tystiolaeth o Gostau Digartrefedd. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/7596/2200485.pdf (Cyrchwyd: 14 Ionawr 2022)

⁴⁶ Homeless Link (2013) What’s it worth? Ar gael yn: <https://www.homeless.org.uk/search/sitedb?search=what%27s+it+worth%3F> (Cyrchwyd 14 Ionawr 2022)

ATODIAD 4: CYNNWYS PLANT A PHOBL IFANC WRTH DDEFNYDDIO'R FFRAMWAITH YN LLEOL

Gwybodaeth i'w rhannu gyda grwpiau plant a phobl ifanc

Mae'r fframwaith llety a chymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal wedi'i ddiweddarau trwy grŵp amrywiol o randdeiliaid sy'n gweithio gyda phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n gadael gofal. Er bod y fframwaith wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer pobl sy'n gweithio yn yr awdurdod lleol, mae pobl ifanc wedi helpu i benderfynu beth ddylai gael ei gynnwys yn y fframwaith. Mae'r fframwaith yn dwyn ynghyd lawer o syniadau da o bob cwr o'r wlad am yr hyn sy'n gallu helpu pobl ifanc o safbwynt tai wrth iddyn nhw symud allan o ofal. Nid yw'n dweud wrth eich awdurdod lleol beth i'w wneud, ond mae'n cynnig llawer o awgrymiadau am yr hyn sy'n gweithio mewn ardaloedd eraill, a allai fod yn fanteisiol i bobl ifanc y mae eich awdurdod lleol yn gyfrifol amdanyh nhw.

Er enghraifft, mae'n darparu syniadau am yr hyn sydd ei angen ar bobl ifanc sy'n parhau i fod mewn gofal ac yn dechrau meddwl am y cam nesaf iddyn nhw. Hefyd, mae'n edrych ar y mathau gwahanol o ddewisiadau tai a allai fod ar gael i bobl ifanc sy'n gadael gofal, ac mae'n darparu syniadau ar gyfer y math o gymorth sydd fwyaf defnyddiol os oes gan rywun sy'n gadael gofal broblem yn ymwneud â thai.

Bydd yn ddefnyddiol meddwl am y fframwaith a sut y gellid ei newid ar gyfer eich ardal. Mae angen bod yn ymarferol ac yn ddidwyll, oherwydd fel sy'n wir am bob man yng Nghymru, mae yna rai cyfyngiadau ar y dewisiadau tai sydd ar gael i bobl ifanc.

Syniadau ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc wrth ddefnyddio'r fframwaith yn lleol:

- Rhannu' diagram fframwaith un dudalen gyda grwpiau sy'n cyfranogi ar hyn o bryd. Gofyn i blant sydd mewn gofal ar hyn o bryd a'r rhai sy'n gadael gofal am y canlynol:
- Ym mha feysydd y mae'r awdurdod lleol yn darparu'n dda ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal?
- Ble mae bylchau yn yr hyn y mae'r awdurdod lleol yn ei ddarparu i bobl ifanc sy'n gadael gofal?

- Pa grwpiau o bobl sy'n gadael gofal yn yr ardal fyddai angen cymorth penodol yn ymwneud â thai yn eich barn chi?
- Beth ydych chi'n ei feddwl am rai o'r gwasanaethau a awgrymir yn y fframwaith a'r posibilrwydd y bydden nhw'n gweithio'n lleol? (Dyma rai enghreifftiau posibl: fflatiau hyfforddi; cyfryngu; cynlluniau landlordiaid sy'n gymheiriaid neu dai a rennir; Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc)
- Adolygu cynlluniau llwybrau pobl ifanc sy'n gadael gofal er mwyn asesu'r hyn sy'n gweithio'n dda a nodi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Bydd hyn yn helpu i gynnwys pobl ifanc nad ydyn nhw'n ymwneud â grwpiau cyfranogi. Gofyn i gynghorwyr personol, fel rhan o'u sgysiau dal i fyny rheolaidd, ganfod barn pobl ifanc sy'n gadael gofal am y ddarpariaeth bresennol a beth allai newid
- Gwahodd grŵp o blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i gyfarfod ag aelod arweiniol a/ neu gyfarwyddwr gwasanaethau plant. Hwyluso trafodaeth dan arweiniad sy'n seiliedig ar y fframwaith am yr hyn sy'n gweithio ar hyn o bryd a'r meysydd sydd angen eu gwella yn y gwasanaethau tai lleol i bobl ifanc sy'n gadael gofal
- Cynnal grwpiau ffocws neu drafodaethau anffurfiol gyda phobl ifanc sydd ar fin gadael gofal ac sydd mewn lleoliadau gwahanol yn eich ardal chi. A oes gan bobl ifanc sy'n gadael gofal maeth, sydd mewn trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod', sydd mewn gofal preswyl neu sy'n byw mewn 'trefniadau eraill' farn wahanol am y cymorth tai sydd ei angen arnyh nhw? Beth am y rhai sydd yn y carchar neu sydd wedi bod yn y carchar, neu'r rhai sydd ag anableddau corfforol neu broblemau iechyd meddwl?




Cynorthwyyr	Camau ac opsiynau'r fframwaith	Gweithgarwch a dull gweithredu
Gofalwr/gweithiwr preswyl	1. Paratoi ar gyfer realiti opsiynau tai	
Cynghorydd personol	2. Cynllunio opsiynau llety a chymorth pobl ifanc gyda nhw	
Gweithiwr tai	3. Lleihau argyfyngau tai	
	4. Cael mynediad at dai a chymorth yn ôl yr angen	
	5. Mynediad at opsiynau cymorth a symud tymor hwy a rheoli'r rhain yn llwyddiannus	

Egwyddorion sylfaenol - bod pobl ifanc:

- yn cael cymaint o ddewis, gwybodaeth a rheolaeth â phosibl
- yn gallu gwneud camgymeriadau a byth yn 'syrthio' o'r fframwaith
- yn cael cymorth i lwyddo

- yn cael cynnig cymorth hyblyg sy'n addasu i ddiwallu eu hanghenion

- yn cael cynnig perthynas gefnogol a diamed
- yn gydgysfrifoldeb eu rhiant corfforaethol





sheltercymru.org.uk

Registered charity no. 515902